------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 23 Medi 2014**

Amser:
**09.00**


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Michael Kay**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
pwyllgor.cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk


## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2013 – 2014 (09:05-10:15)

PAC(4)-24-14 papur 1
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Peter Black AC – Comisiynydd
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Nicola Callow – Cyfarwyddwr Cyllid

### 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: (10:15)

Eitem 4

### 4 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2013 – 2014: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (10:15-11:00)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Adolygiad o'r flwyddyn

# Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon

Gorffennaf 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

Os oes angen copi o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch Cyfathrebu'r Cynulliad:

**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.assemblywales.org**
E-bost: **Cyfathrebu@cymru.gov.uk**

Ffôn: 0845 010 5500/01492 523 200

Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfnewid testun. I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, dylech alw'r rhif a ganlyn: **18001 0845 010 5500**.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Adolygiad o'r flwyddyn

# Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon

Gorffennaf 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cynnwys

Rhagair y Llywydd ..... 3
Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ..... 5
Comisiynwyr a'r Dirprwy Lywydd ..... 7
Cynghorwyr annibynol ..... 9
Crynodeb Gweithredol ..... 11
Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ..... 14
Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru ..... 26
Defnyddio adnoddau'n ddoeth ..... 36
Adroddiad Cynaliadwyedd ..... 43
Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ..... 48
Datganiad o gyfrifon ..... 50

# Rhagair y Llywydd



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**

Mae'n bleser gennyf ysgrifennu'r rhagair hwn i adroddiad blynyddol sy'n edrych yn ôl ar flwyddyn brysur o ddeddfu a chraffu ar Lywodraeth Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Gomisiynwyr y Cynulliad, yr Aelodau, eu staff cymorth a staff y Cynulliad am eu holl waith caled yn sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i gael ei weld fel enghraifft ar gyfer arfer seneddol da gan lawer o amgylch y byd.

Mae wedi bod yn flwyddyn lle mae'r drafodaeth ynghylch dyfodol setliad cyfansoddiadol Cymru wedi bod ar frig yr agenda. Rwy'n croesawu'r pecyn o argymhellion gan y Comisiwn ar Ddatganoli, sy'n cynnig sylfaen gadarn ar gyfer datblygu datganoli yng Nghymru, cryfhau democratiaeth ac atebolrwydd ac, yn bennaf oll, er mwyn i'r Cynulliad wasanaethu pobl Cymru yn well. Yn benodol, yr wyf yn croesawu ei gasgliad ar y mater o ragor o Aelodau Cynulliad. Mae'n hanfodol bod gan y Cynulliad ddigon o Aelodau Cynulliad etholedig i ddarparu'r arbenigedd a'r wybodaeth angenrheidiol i herio cynigion Gweinidogion y Llywodraeth yn llawn ac yn gadarn.

Y tu hwnt i hynny, bydd symud i fodel o bwerau a gedwir yn ôl yn helpu i chwalu peth o'r ansicrwydd o ran rôl a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Bydd yn ein galluogi i ddeddfu yn fwy effeithiol ac yn fwy hyderus.

Mae adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli hefyd yn gam pwysig tuag at sefydlu confensiwn cyfansoddiadol. Ni waeth beth fo canlyniad y refferendwm yn yr Alban yn ddiweddarach eleni, mae'n rhaid inni edrych ar ddyfodol datganoli a chael eglurhâd o'r cyfrifoldebau a'r cysylltiadau rhwng gwahanol sefydliadau deddfwriaethol y DU.

Eleni, mae wyth o gyfreithiau newydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol, gan ddod â'r cyfanswm i 12 ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Fel deddfwrfa, rydym wedi gweithio'n hyblyg i graffu ar yr amrywiaeth eang o Filiau a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad ei hun, yn ogystal â Deddfwriaeth Aelodau Preifat. Cafodd y Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) sylw yn y cyfryngau ledled y DU gan ei bod yn golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i roi caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau.

Un o amcanion craidd Comisiwn y Cynulliad yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yw gwella ein hymgysylltiad â phobl Cymru. Rhan bwysig o hynny yw cynyddu cyfranogiad pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad. Ar ddiwedd 2013, cynhaliwyd ymgynghoriad eang â dros 3,000 o bobl ifanc er mwyn gofyn iddynt sut orau y gallwn gyrraedd nod y Comisiwn o roi mwy o gyfle i'n dinasyddion ifanc lywio busnes y Cynulliad, a chyfrannu ato. Ym mis Gorffennaf, gwelwn ffrwyth y gwaith hwnnw, pan fyddwn yn lansio amryw o fentrau i sicrhau ein bod yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl ifanc ddysgu am waith y Cynulliad, a sut y gallant ddylanwadu arno.

Rwyf wedi parhau i weithio ar fy ymgyrchoedd i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn dod o gefndir o ddoniau eang ac amrywiol, a mynd i'r afael â'r gwendidau yn y ffordd y mae'r cyfryngau yn adrodd ar waith y Cynulliad. Lansiodd fy ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus borthol newydd a chynllun datblygu i annog menywod i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus. Rwyf wedi gweithio gydag arweinwyr y pleidiau hefyd i sefydlu cawcws i'r pleidiau drafod yr hyn y gallant ei wneud i annog rhagor o fenywod i gyflwyno eu hunain fel ymgeiswyr, a sut y gallant ganfod a rhannu arfer gorau o seneddau eraill.

Fel rhan o fy ymgyrch Mynd i'r afael â'r Diffyg Democrataidd yng Nghymru, rydym wedi bod yn gweithio gyda gwefannnau ccymunedau lleol, blogiau a grwpiau ar-lein i sicrhau y gallant gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen i gynhyrchu newyddion am fusnes y Cynulliad sy'n berthnasol i'w meysydd a'u cynulleidfaoedd hwy. Eleni, ymddangosodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a Chadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC gerbron Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad ar gyfer sesiwn graffu. Rwy'n croesawu hyn ac yn gobeithio gweld trafodaethau ac atebolrwydd pellach yn y dyfodol.

Mae'r pymtheg mlynedd ers i'r wawr dorri ar ddatganoli yng Nghymru wedi bod yn frith o welliant a datblygiad parhaus o ran y ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio a'r cyfrifoldebau sydd ganddo. Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn troi ein meddyliau o ddifrif i'r paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Bydd angen inni sicrhau bod y Cynulliad nesaf yn barod am yr heriau a'r cyfleoedd y mae'n debygol o'u hwynebu.

Rosemary Butler

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad

# Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad



**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

Ar ddiwedd trydedd flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad, rwy'n falch o gyhoeddi ein bod yn parhau i wneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni nodau strategol y Comisiwn ar gyfer y tymor Cynulliad hwn. Un o'r nodau hynny yw 'Defnyddio adnoddau'n ddoeth' ac, fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn, rwyf am ganolbwyntio yn y cyflwyniad hwn ar rai o'r ffyrdd allweddol y byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r arian cyhoeddus a gaiff ei ymddiried i ni.

Yn 2011, sefydlodd y Comisiwn strategaeth cyllideb tair blynedd glir ar gyfer gwella capasiti a galluoedd gwasanaethau'r Cynulliad. Roedd y strategaeth yn pwysleisio'r angen i fuddsoddi mewn cymorth i Aelodau a'u cyfrifoldebau deddfwriaethol newydd; yr ystâd fel lleoliad ar gyfer Cymru; cyfathrebu a thechnoleg; a'r ffordd yr ydym yn gweithio fel corff corfforaethol effeithlon. Sylfaen y strategaeth yw bod trefniadau ariannol cadarn ar gael i sicrhau arbedion gwerth am arian, cyfyngu ar gostau lle y bo hynny'n briodol a buddsoddi lle bo angen.

Drwy gydol 2013-14, rydym wedi bod ar y trywydd iawn o ran cyrraedd ein dangosyddion perfformiad ariannol allweddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, rhagorwyd ar y targed Gwerth am Arian; cyflwynwyd alldro ar ddiwedd y flwyddyn o fewn 0.07% o'n cyllideb o £49.9m (tanwariant o ddim ond £34,000); a chafodd anfonebau cyflenwyr a hawliadau treuliau eu talu o fewn pedwar diwrnod yn erbyn targed o ddeg diwrnod. Mae'r cyflawniadau anhygoel hyn yn dyst i waith dyfal y staff ar draws y Cynulliad.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn gadarn ac, ynghyd ag arweiniad strategol a goruchwyliaeth gan y Comisiwn, mae'n cynnwys y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Taliadau, y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Buddsoddi. Caiff y Byrddau hyn eu cefnogi a'u llywio gan fyrddau rhaglenni a phrosiectau a gwasanaeth Archwilio Mewnol cadarn. Rhoddir gwybodaeth am yr elfennau hanfodol hyn o'n trefniadau llywodraethu yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi yn cwrdd yn rheolaidd i gyflawni ei rôl o oruchwylio a rheoli adnoddau'r Comisiwn, gan gynnwys y gyllideb fuddsoddi. Mae'r Bwrdd yn ystyried y flaenoriaeth a roddir i brosiectau datblygu arfaethedig ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch ariannu'r prosiectau hyn. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod alldro'r Cynulliad o fewn y gyllideb drwy fonitro alldroeon a rhagolygon misol, a chanfod cyfleoedd i ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Ystâd y Cynulliad yw ein hased cyfalaf pwysicaf. Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r adeiladau eleni ac, o ganlyniad, mae ystâd y Cynulliad yn cyfleu delwedd fwy proffesiynol. Mae'r Comisiwn hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau ei ôl-troed carbon ac mae wedi gwneud newidiadau sydd wedi lleihau defnydd ac allbwn.

Yn olaf, yn ystod y flwyddyn, cynlluniwyd ar gyfer trosglwyddo ein gwasanaethau TGCh o drefniadau allanol i system reoli a darparu yn fewnol. Roedd hwn yn newid mawr, a gyflwynwyd yn esmwyth ac effeithiol, yn gynt na'r disgwyl ac o fewn y gyllideb. O ganlyniad i hyn, mae gan y Comisiwn yr hyblygrwydd a rheolaeth sydd eu hangen arno bellach i ddatblygu gwasanaethau TGCh i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaeth yn well. Mae'r newid hefyd yn gwireddu arbedion ariannol sylweddol, a gaiff eu hail-fuddsoddi fel y gallwn ddarparu gwasanaethau TGCh hyblyg a mwy uchelgeisiol i Aelodau'r Cynulliad ac i bawb sy'n gysylltiedig â gwaith y Cynulliad.

Ni fyddai llwyddiannau'r Comisiwn yn bosibl heb waith caled, ymroddiad a safon uchel staff y Cynulliad, ar draws pob rhan o'r sefydliad. Mae'n bleser i arwain tîm mor dalentog a brwdfrydig.



**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

# Comisiynwyr a'r Dirprwy Lywydd

**Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Ei rôl yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.**

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad, un wedi ei enwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.



**Y Fonesig Rosemary Butler AC** (Llafur Cymru)
Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd y Comisiwn, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff.



**Angela Burns AC** (Ceidwadwyr Cymreig)
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb, llywodraethu (gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Mae Angela hefyd yn gyfrifol am wella gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad, a rôl y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.



**Peter Black AC** (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, a chynaliadwyedd



**Sandy Mewies AC** (Llafur Cymru)
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros wasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, cyfleusterau'r Cynulliad, manwerthu, arlwyo a diogelwch. Mae hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau cydraddoldeb statudol y Comisiwn.



**Rhodri Glyn Thomas AC** (Plaid Cymru)
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, gwasanaethau cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

## Y Dirprwy Lywydd



**David Melding AC** (Ceidwadwyr Cymreig)
Mae'r Dirprwy Lywydd yn mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau yn ei rinwedd ei hun fel Dirprwy Lywydd, yn ogystal ag ar ran y Llywydd, er mwyn codi proffil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

# Cynghorwyr annibynol

**Mae Comisiwn y Cynulliad wedi penodi cynghorwyr annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.**

Mae'r Cynghorwyr yn ymwneud â nifer o weithgareddau a gwasanaethau yn y Cynulliad,, gan gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comiswn; ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a threfniadau adrodd, cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn o ran arfarnu staff a pholisïau a systemau a chadw trosolwg feirniadol ar ddulliau rheoli ariannol a gweithdrefn rheoli risg y Comisiwn.



**Mair Barnes**
Mae Mair Barnes y cynghori ac yn mentora nifer o gyfarwyddwyr Byrddau ar draws amrywiaeth o sectorau yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar fusnes byd-eang. Mae'n gyn-Gadeirydd Vantios ccc a Rheolwr Gyfarwyddwr Woolworths ccc. Mae wedi dal swyddi cyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.



**Keith Baldwin**
Treuliodd Keith 20 mlynedd fel partner yn PricewaterhouseCoopers (PWC). Ar wahân i'w gyfrifoldebau dros gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, daliodd hefyd nifer o swyddi rheoli gan gynnwys Dirprwy Bartner yn gyfrifol am ymgynghori â'r Llywodraeth a Phartner yn gyfrifol am y swyddogaethau rheoli risg ac ansawdd o fewn Busnes Cynghori PWC.

Ers gadael PWC mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol a chynghorol, gan gynnwys aelod bwrdd anweithredol ac aelod o Bwyllgor Archwilio CVQO Cyf (sy'n helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau galwedigaethol). Mae'n aelod o Gyngor ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Chyflogau Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin ers 2010. Bu'n gyfarwyddwr anweithredol y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (y Coleg Barnwrol erbyn hyn) rhwng 2007 a 2011 ac mae bellach yn gwasanaethu ar ddau bwyllgor ar Fwrdd Safonau'r Bar (y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y Bar).



**Richard Calvert** (tan fis Tachwedd 2013)
Ailymunodd Richard Calvert â'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) ym mis Awst 2009 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol ar ôl dwy flynedd a hanner gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), lle bu'n dal swydd Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau. Mae Richard yn Gyfrifydd Rheoli cymwys, ac mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol yn y sector cyhoeddus.



**Helena Feltham**
Mae Helena wedi cael gyrfa hir o ran Arwain ym maes Manwerthu ac Adnoddau Dynol ac mae ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol byd-eang ar gyfer TOPSHOP TOPMAN ar ôl treulio amser yn flaenorol yn aelod o fwrdd fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Marks & Spencer, Jack Wills Ltd., ac yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Woolworths De Affrica, cyn dychwelyd i'r DU yn 2005 pan ymunodd ag Odgers Berndtson yn gwneud ymchwil weithredol. Mae hi hefyd wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar Ymddiriedolaeth y GIG, ac ar hyn o bryd mae'n Ynad Heddwch ac yn Aelod o Fwrdd ac Ymddiriedolwr yr Elusen Gweithredu dros Blant.



**Eric Gregory**
Mae Eric yn gyfarwyddwr anweithredol i Swyddfa Basport Ei Mawrhydi (HMPO), Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet, lle mae hefyd yn cadeirio Bwrdd Risg a Sicrwydd y Rhaglen. Mae'n aelod o Bwyllgorau Archwilio HMPO ac LAA.

Bu'n gweithio i Bartneriaeth John Lewis am 25 mlynedd tan 2009, lle roedd yn Gyfarwyddwr Bwrdd am saith mlynedd, yn dal pob un o'r tair prif swydd Cyfarwyddwr TG cyn dod yn Gyfarwyddwr Personél. Cyn hynny, roedd yn gyfarwyddwr anweithredol i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Llundain ac yn aelod o'i Fwrdd TGCh. Mae hefyd wedi dal swydd Cadeirydd Bwrdd TG Fforwm Cynnyrch Defnyddwyr, ac roedd yn aelod o Fwrdd Busnesau e-sgiliau am chwe blynedd.



**Hugh Widdis, Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**
Hugh yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn Senedd Gogledd Iwerddon. Yn y rôl honno, mae'n gwnsler i'r Cynulliad, mae'n darparu gwasanaethau archwilio mewnol a gwasanaethau llywodraethu, ac mae'n aelod o'r bwrdd rheoli.

Mae ganddo dros 13 mlynedd o brofiad o weithio yn y gwasanaeth seneddol. Cyn ymuno â thîm cyfreithiol y Cynulliad, roedd Hugh yn gweithio ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol gyda chwmni darparu gwasanaethau ariannol amlwg. Mae wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban hefyd, ac ym maes cyfraith wahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog.

Mae Hugh yn fargyfreithiwr. Mae'n aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

# Crynodeb Gweithredol

Amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad sy'n rhoi ffocws i'n gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Dyma'r nodau:

– darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru; a

– defnyddio adnoddau'n ddoeth

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut y mae'r Cynulliad yn cyflawni'r nodau strategol hyn.

Mae Cymru'n cael oddeutu £15 biliwn bob blwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i bobl Cymru. 'Bloc Cymru', fel y gelwir yr arian hwn, sy'n ariannu ein hysgolion, ein hysbytai, ein seilwaith trafnidiaeth - pob agwedd ar ein bywydau y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt.

Rhoddir cyfran fach o'r arian hwnnw (0.3%) i ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr arian hwn sy'n caniatáu i'r Cynulliad gyflawni ei rôl o gynrychioli etholwyr Cymru (drwy'r 60 Aelod etholedig o'r Cynulliad), deddfu ar gyfer Cymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd gan Gomisiwn y Cynulliad gyllideb o £49.9 miliwn. O'r cyfanswm hwn, roedd £13.7 miliwn ar gael ar gyfer ein cynrychiolwyr etholedig: ar gyfer eu cyflogau a chostau eraill, fel swyddfa ym Mae Caerdydd, a staff i'w cefnogi yn eu gwaith.

Rhoddir gweddill y gyllideb at ddefnydd y Comisiwn i ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau at ddibenion rhedeg y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys rhedeg y Senedd a Thŷ Hywel yn llyfn i sicrhau bod gan staff y Cynulliad y lefelau angenrheidiol o arbenigedd cyfreithiol a chyfansoddiadol i ddarparu gwasanaeth seneddol rhagorol i'r Aelodau.  Caiff cyfran o'r arian hefyd ei wario ar raglen strategol i ymgysylltu â'r cyhoedd, a gynlluniwyd i annog pobl i fod yn gyfranogwyr gweithgar yn nemocratiaeth Cymru.

## Gwerth am Arian

Mae gennym record gref o ran sicrhau gwerth am arian, ac rydym wedi rhagori ar ein targed blynyddol ar gyfer pob blwyddyn o'r Pedwerydd Cynulliad hyd yma. Rydym wedi sicrhau arbedion sylweddol drwy gaffael a rheoli contractau'n gadarn, rydym wedi dod o hyd i feysydd i wneud y gorau o'n heffeithiolrwydd o ran darparu gwasanaethau, ac wedi parhau i wella ein gwybodaeth reoli. Hyd yn hyn, sicrhawyd y rhan fwyaf o'n harbedion drwy reoli swyddi gwag, ac mae ein canran o arbedion eraill yn cynyddu'n raddol (20% yn 2013-14). Yn y blynyddoedd i ddod, rydym yn disgwyl i hyn barhau i fod yn her ac mae angen i ni ddatblygu ein gwybodaeth reoli ymhellach er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn.

## Ein cyflawniadau a blaenoriaethau

Gwnaed cynnydd yn y flwyddyn hon ar draws ein holl nodau strategol ac mae'r Comisiwn yn glir ynghylch ei flaenoriaethau ar gyfer adeiladu ar y llwyddiannau hyn yng ngweddill y Pedwerydd Cynulliad, yn benodol:

- Gwnaed cynnydd sylweddol er mwyn cryfhau'r Cynulliad fel senedd. Ers 1999, mae'r hyder yng ngwaith y Cynulliad wedi tyfu'n aruthrol. Dylem fod yn falch o'n dull o ddarparu cefnogaeth seneddol, ac rydym yn yn esiampl i eraill ei dilyn mewn llawer o feysydd. Yr enghreifftiau diweddaraf yw ein rhaglen arloesol i gefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus yr Aelodau a theilwra gwasanaethau ymchwil fel nodiadau briffio. Wedi dweud hynny, mae llawer rhagor i'w wneud, ac mae ambell her fawr inni yn ystod y ddwy flynedd nesaf i ddarparu cymorth cyson a chryf sy'n diwallu anghenion Aelodau unigol a Phwyllgorau'r Cynulliad yn llwyr, er mwyn eu galluogi i weithredu fel Senedd ragorol ar gyfer Cymru.
- Mae'r gallu i gymryd rhan yn ddirwystr yn y naill a'r llall o'n hieithoedd swyddogol mewn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn ddyhead pwysig i'r Comisiwn. Dylai pobl allu dewis a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ym mhob elfen o'u gwaith. Rydym ar y trywydd iawn a bu cynnydd sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn diwedd y Cynulliad hwn, byddwn wedi gweddnewid ein gwaith fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog drwy ddefnyddio technoleg, drwy sefydlu a gweithredu ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog; drwy edrych yn fanylach ar ein hadnoddau staffio, a thrwy ymrwymiad holl staff y Comisiwn i gyflawni'r safonau uchaf o gefnogaeth seneddol i'r Aelodau a'r cyhoedd yn y ddwy iaith.
- Bu cynnydd mawr mewn agweddau penodol ar ein gwaith ar ymgysylltu eleni. Mae'r gwaith a wnaed i ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc, a'r ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, yn enghreifftiau cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn am ymgysylltu fwy fyth â'r cyhoedd yn gyffredinol, nid dim ond â grwpiau penodol. Ledled Cymru, ac ar gyfer pob grŵp, mae'r Comisiwn yn awyddus i ni sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod am ddiben y Cynulliad.
- Unwaith eto, cafwyd llwyddiannau sylweddol ar draws ystâd y Cynulliad, sydd bellach yn cyfleu delwedd broffesiynol well. Yr heriau allweddol nesaf fydd cynaliadwyedd, a sicrhau bod swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth o safon uchel yn gyson.

# Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Pwyllgorau'r Cynulliad:

– Byddant yn cytuno ar gynllun clir, strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau;
– Byddant yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt;
– Byddant yn cael eu harwain gan gadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodir ar eu cyfer gan y Cynulliad;
– Byddant yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu dadansoddiad a gwerth eu gwelliant deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi ffurfio ei chynlluniau polisi, gwario a deddfwriaethol;
– Byddant yn craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolio yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau;
– Byddant yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw hyd braich a'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol;
– Ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt;
– Byddant yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, yn cael eu hystyried gan grwpiau o randdeiliaid fel chwaraewyr pwysig, dylanwadol ac fel y lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da cyhoeddus y Cynulliad. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang ag y bo modd;
– Byddant yn sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad; a
– Byddant yn gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad



# Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Mae parhau i wella'r gwasanaethau seneddol o ansawdd uchel yr ydym yn eu darparu i Aelodau'r Cynulliad yn flaenoriaeth i'r Comisiwn. Eleni, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn erbyn y nod strategol hon:

– cytunodd y Comisiwn ar ei weledigaeth ar gyfer cefnogaeth o'r radd flaenaf i bwyllgorau;

– mwy o bwyslais ar deilwra cymorth unigol i Aelodau ar ôl ailstrwythuro gwasanaethau Busnes y Cynulliad;

– defnydd cynyddol Aelodau'r Cynulliad o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP);

– gweithredu ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol; a

– lansio cyfleuster Microsoft Translator;

**Gweledigaeth ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf**

Dylai pwyllgorau'r Cynulliad ddangos eu bod yn gwella ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth a gwasanaethau cyhoeddus i'r gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibynniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.

Mae'r Cynulliad hefyd yn parhau i ddatblygu ei allu a'i brofiad o ran gwneud deddfau newydd.

## Busnes Seneddol

Pwyllgorau'r Cynulliad sydd wrth wraidd y broses ddemocrataidd, gan ddwyn y Llywodraeth i gyfrif a chwarae rôl hanfodol o ran deddfu ar gyfer Cymru. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y pwyllgorau'n cael adnoddau priodol fel y gallant gyflawni eu swyddogaeth allweddol yn effeithiol. Mae'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd yn eu lle i gefnogi'r pwyllgorau yn cynnwys cyngor gweithdrefnol a chyfreithiol, arbenigedd ymchwil manwl, cyfleusterau cyfieithu a chofnodi, gwasanaeth allgymorth ac ymgysylltu allanol a chymorth i wella capasiti, fel mynediad at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a chyngor allanol.

Yn 2013, cynhaliodd y Comisiwn adolygiad o hyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu trefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol a'u bod yn cyrraedd y safon uchaf posibl ac yn darparu'r hyn sydd ei angen ar yr Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae ein hadolygiad yn disgrifio'r math o system hynod effeithiol o bwyllgoau seneddol y mae'r Comisiwn yn anelu ati, er mwyn sicrhau bod gan y Cynulliad bwyllgorau o'r radd flaenaf, a'r meysydd allweddol lle y dylid canolbwyntio adnoddau.

Mae'r adolygiad hwn wedi ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o sut y mae cadeiryddion, aelodau unigol a phwyllgorau yn gyffredinol am gael eu cefnogi fel eu bod cystal ag y gallant fod. Rydym yn awr yn gweithio i wella'r aliniad rhwng y gefnogaeth a ddarparwn a'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr Aelodau. Byddwn yn darparu gwasanaethau hyblyg sydd wedi'u teilwra a'u darparu mewn modd sy'n adlewyrchu'r gofynion ar yr Aelodau ac sy'n eu galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'u hamser;

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu datblygu ffyrdd fwy amrywiol a hyblyg o roi gwybodaeth i'r Aelodau a'u staff. Mae angen inni ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gan gynnwys darparu deunydd briffio ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol ag anghenion yr Aelodau, fel y gallant weithio yn eu dewis iaith, a datblygu ffyrdd cynyddol arloesol o ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol. Mae angen hefyd inni ddarparu cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus estynedig ar gyfer pwyllgorau a'u cadeiryddion.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth

Drwy'r Adolygiad o'r Cymorth i'r Pwyllgorau, nodwyd mai un o'u cryfderau oedd gwaith allgymorth y pwyllgorau. Mae pwyllgorau'r Cynulliad yn arloesi ffyrdd newydd o gasglu tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflwyno eu gwaith. Mae pob pwyllgor yn cyfrannu'n rheolaidd at bresenoldeb y Cynulliad ar rwydweithiau cymdeithasol, ac mae eu hadroddiadau'n llwyddo i gael sylw yn y cyfryngau prif ffrwd yn rheolaidd.

> grfrancis:
> **Enjoyed opportunity to give evidence on fuel poverty to @AssemblyWales Environment Cmte. Vital to increase pace on energy efficiency**
>
> Twitter

> letdowncardiff:
> **Excellent session @SeneddEnv on fuel poverty today - all witnesses saying that private rented sector energy standards are far too low**
>
> Twitter

> NTWales:
> **RT @SeneddEnv: Our committee room this morning at Llyndu Isaf with @NTWales #Snowdonia pic.twitter.com/O6s3R3nEWF**
>
> Twitter

### Arloesi yn yr orsaf

Yn ystod haf 2013, lansiodd y Pwyllgor Menter a Busnes ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Dechreuodd yr ymchwiliad gyda'r Pwyllgor yn clywed gan grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd yn y Pierhead ym Mae Caerdydd. Hwylusodd aelodau'r Pwyllgor drafodaethau o gwmpas y bwrdd a chyfleu crynodeb o'r trafodaethau hynny i'r cyfarfod cyfan. Casglodd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Roedd argymhellion yr adroddiad ar ffurf Siarter ar gyfer y fasnachfraint nesaf. Lansiodd y Pwyllgor yr adroddiad ar y trên i Henffordd i bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau trawsffiniol i'r rhwydwaith fasnachfraint cyfan. Roedd y lleoliad anarferol yn cynnig cyfle am ddelweddau ardderchog ar gyfer y teledu, ac yn helpu i sicrhau sylw yn y cyfryngau ac adborth gan randdeiliaid ar ddwy ochr y ffin.

### Cyfranogiad Myfyrwyr

Nod ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Gyllido Addysg Uwch oedd cymryd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o fyfyrwyr - yn israddedigion blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn, a myfyrwyr Safon Uwch (neu gyfwerth), a oedd yn ystyried mynd i'r brifysgol. Yn ogystal â chasglu tystiolaeth drwy ddulliau traddodiadol gan ddarparwyr addysg uwch a'r sector, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg o fwy na 1,300 o fyfyrwyr. Dilynwyd hyn gan we-sgyrsiau â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a oedd wedi dewis astudio yng Nghymru ac ail sesiwn gyda grŵp a oedd yn astudio mewn amrywiaeth o sefydliadau yn Lloegr.

Yn ogystal â'i adroddiad, datblygodd y Pwyllgor inffograffeg hwylus i ddangos sut y cynhaliodd ei waith.

# PWYLLGORAU: EBRILL 2013 - MAWRTH 2014

**10** CYNNIG CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL WEDI'I GYFEIRIO AT Y PWYLLGOR BUSNES

**6** ADRODDIAD CYNNIG CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

**10** ADRODDIAD BIL

**39** O ADRODDIADAU GAN BWYLLGORAU

**280** O GYFARFODYDD PWYLLGOR

**36** O YMCHWILIADAU PWYLLGOR

**55** CYFANSWM ADRODDIADAU PWYLLGOR

## Ymateb i ddeisebau

Mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn parhau i ymgysylltu â phryderon dinasyddion o bob cwr o Gymru. Cafodd tua 90 o ddeisebau newydd, a gasglodd dros 65,000 o lofnodion gyda'i gilydd, eu hystyried gan y Pwyllgor rhwng mis Mawrth 2013 a mis Ebrill 2014. Gwerth y broses hon, fel y mae llawer sydd wedi ymwneud â hi wedi dweud, yw'r cyfle i fynegi barn. Er enghraifft, cafodd deiseb i ystyried Academi Heddwch Cymru (P-03-262) ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau ac, yn dilyn galwadau am dystiolaeth ac adroddiad a osodwyd ar 24 Hydref 2013, trafodwyd y mater yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror 2014. Arweiniodd y broses hon at drafod y mater ar y lefel uchaf yng Nghymru.

### Cyfyngiadau newydd i ddeisebwyr

Ym mis Awst 2013, cafwyd canlyniad llwyddiannus i ddeiseb yn galw am 'Gyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion' pan gyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod, yn dilyn adolygiad o'r terfyn cyflymder, wedi penderfynu cyflwyno terfyn cyflymder o 40 mya.

## Integreiddio gwaith pwyllgorau

Mae clercod, ymchwilwyr, cyfreithwyr, cyfieithwyr a staff allgymorth y comisiwn yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu cefnogaeth i bwyllgor fel 'tîm integredig'. Yr adborth a gawn gan seneddau eraill pan fyddant yn ymweld yw bod y lefel hon o gydweithio yn arloesol ac yn rhywbeth y maent yn anelu atynt. Serch hynny, rydym yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau ac yn adolygu prosesau i ganfod gwelliannau pellach.

Cafodd Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad ei hailstrwythuro yn ystod y flwyddyn. Mae'r timau clercio wedi cael eu had-drefnu er mwyn sicrhau bod gan bob pwyllgor y gallu a'r arbenigedd bellach i gefnogi gwaith polisi a deddfwriaethol.

Mae timau integredig y pwyllgorau wedi bod yn gweithio gyda'n dadansoddwyr busnes i lunio prosesau'r pwyllgorau er mwyn canfod a gweithredu ffyrdd symlach o ddarparu gwell gwasanaethau i Aelodau. Byddwn yn parhau i weithio ar hyn yn ystod y flwyddyn.

Rhan bwysig o'r strwythur newydd oedd creu gwasaneth bach newydd sy'n canolbwyntio ar drawsnewid strategol y Cynulliad yn y tymor hwy. Mae'r tîm yn gyfrifol am lywio'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol y Comisiwn, fel ymgysylltu â phobl ifanc a chyfieithu peirianyddol drwy ddull Gweithredu Bwrdd Rhaglenni.

Nod y Bwrdd Rhaglenni yw darparu fforwm ar gyfer cynigion prosiectau i'w cyflwyno ar gam cynnar i alluogi'r rhain i gael eu hystyried a'u blaenoriaethu o fewn cyd-destun uchelgeisiau'r Rhaglen, yn ogystal â chael eu cydbwyso yn erbyn gofynion prosiectau eraill ac adnoddau penodol.


Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol sydd hefyd yn arwain gwaith sy'n ymwneud ag esblygiad y Cynulliad yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn barod i ymateb i ddatblygiadau cyfansoddiadol a newidiadau allanol eraill.

## Rhagor o alw am y Gwasanaeth Ymchwil

Gwelodd y Gwasanaeth Ymchwil gynnydd yn y galw am ei wasanaethau gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Bu ymchwilwyr a staff y llyfrgell yn ymateb i fwy o ymholiadau cyfrinachol unigol yn ymwneud â materion etholaethol a busnes y Cynulliad, yn darparu briffs a chyngor i Aelodau mewn pwyllgorau ac yn cyhoeddi ystod eang o wybodaeth ar ei flog cyhoeddus amserol, papurau ymchwil a thaflenni ffeithiau etholaeth i lywio trafodaethau.

Yn 2013-14, cafwyd ymholiadau gan 58 Aelod Cynulliad unigol (97%); cyflwynodd 56 o Aelodau'r Cynulliad (93%) ymholiad o leiaf dair gwaith a chyflwynwyd ymholiad o leiaf bedair gwaith gan 54 (90%) o'r Aelodau.

**Ymholiadau Aelodau a'r holl waith (gan gynnwys gwaith pwyllograu), rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn gynwysedig**




**Mae'r galw am waith gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cynyddu**

## Siambr fwy amserol

Yn y Siambr (y siambr drafod), mae'r Llywydd wedi canolbwyntio dros y flwyddyn ddiwethaf ar gynyddu cyfleoedd i aelodau'r meinciau cefn a gwella natur amserol a pherthnasedd Busnes y Cynulliad.

Yn gynnar yn 2013, cafodd y terfynau amser ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad eu lleihau o ddeng niwrnod cyn i'r cwestiwn gael ei ofyn yn y Cyfarfod Llawn, i dri diwrnod ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog a phum niwrnod ar gyfer Cwestiynau i Weinidogion Cymru. Y nod oedd cyflwyno cwestiynau mwy amserol. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cadw llygad ar y broses o weithredu'r drefn newydd.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi parhau i roi Dadl Aelod Unigol ar yr amserlen ar gyfer pob hanner tymor. Mae'r dadleuon hyn yn gyfle i'r Cynulliad drafod cynigion a gyflwynwyd gan o leiaf dri aelod o'r meinciau cefn sy'n cynrychioli pleidiau gwahanol. Mae'r pynciau a gaiff eu cynnwys mewn cynigion o'r fath dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys diodydd egni a anelir at blant, tudalen tri *The Sun*, llusernau awyr ac e-sigaréts.

Mae'r Llywydd wedi parhau i gynnal pleidleisiau hefyd ar gyfer deddfwriaeth o'r meinciau cefn ac, ar hyn o bryd, mae pedwar Bil Aelod ar eu taith drwy wahanol gyfnodau'r broses ddeddfwriaethol gerbron y Cynulliad.

## Gwella drwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhau

Mae'r Cynulliad wedi bod yn arloeswr o ran sicrhau bod y mathau o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus, a fyddai ar gael i uwch swyddogion mewn unrhyw sefydliad enghreifftiol fel mater o drefn, ar gael i Aelodau'r Cynulliad.

Mae 41 o Aelodau'r Cynulliad a 155 o'u staff wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd DPP yn ystod y flwyddyn.

Mae ymyriadau DPP ar sail pwyllgorau eleni wedi canolbwyntio ar:

– y broses ddeddfwriaethol a chraffu effeithiol ar Filiau;

– sgiliau holi a chraffu effeithiol; a

– datblygu rhaglen DPP ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi cyflwyno nifer o sesiynau DPP fel rhan o'r rhaglen a gynlluniwyd gennym gyda Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i ddatblygu gallu'r Cynulliad i gynnal gwaith craffu ariannol effeithiol. Nod y rhaglen yw paratoi'r Cynulliad ar gyfer y pwerau ariannol ychwanegol y bydd yn eu cael yn y dyfodol. Credir mai dyma'r rhaglen gynhwysfawr gyntaf i gael ei datblygu ar gyfer hyfforddiant craffu ariannol mewn cyd-destun seneddol yn y DU.

Mae Aelodau'r Cynulliad, eu staff a swyddogion y Comisiwn wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyn, a gyflwynwyd i grwpiau pleidiau ac ar sail drawsbleidiol drwy bwyllgorau'r Cynulliad. Mae 28 o Aelodau'r Cynulliad wedi cymryd rhan yn y rhaglen graffu ariannol, a fydd yn parhau i gael ei darparu yn ystod 2014-15.

## Cynulliad Dwyieithog

Mae ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a gytunwyd gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2013, yn nodi'n glir yr hyn y gall yr Aelodau, y cyhoedd a staff y Cynulliad Cenedlaethol ei ddisgwyl mewn perthynas â ieithoedd swyddogol y Cynulliad.

Mae'r Cynllun yn nodi ein cynlluniau uchelgeisiol i fod yn sefydliad dwyieithog rhagorol yng Nghymru ac i weithio gydag eraill ar draws Cymru i rannu ein profiad ac arbenigedd, er mwyn eu galluogi i ddarparu ystod gyfoethocach o wasanaethau.

Mae'r Cynllun yn cwmpasu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer Aelodau, pobl Cymru, a staff. Mae hefyd yn nodi ein trefniadau monitro ac adrodd, gan nodi sut y byddwn yn ymdrin â chwynion, a sut y byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r cynllun.

Rydym, bellach, yn cynhyrchu geirfaoedd dwyieithog o dermau anghyfarwydd a ddefnyddir mewn Biliau ac mae mwy o bapurau briffio'n cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith yr un pryd. Mae holl staff y Cynulliad yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi'i deilwra er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu rôl mewn sefydliad dwyieithog. Rydym yn gweithio'n barhaus gyda staff rheng flaen i sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n cysylltu â ni neu'n ymweld â'n hystâd yn cael ei gyfarch yn ddwyieithog ac yn gallu gael gafael ar yr holl wasanaethau gwybodaeth gyhoeddus yn eu dewis iaith. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n contractwyr i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn bodloni'r safonau uchel a gaiff eu gosod gan y Cynllun.

Eleni, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cydymffurfio blynyddol cyntaf, a fydd yn nodi ein llwyddiannau, a lle y mae angen gwneud rhagor o gynnydd i gyrraedd y dyheadau uchel yr ydym wedi'u gosod. Bydd yr adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaethau newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i ddiwallu anghenion cenedl ddwyieithog, a rhannu'r gwersi a ddysgwn gydag eraill.

Fel rhan o'n rhaglen o DPP, mae 16 o Aelodau'r Cynulliad yn cael hyfforddiant Cymraeg gan ein tiwtor mewnol, a gaiff ei ddarparu trwy sesiynau un-i-un, dosbarthiadau grŵp a sesiynau galw heibio. Rydym wedi bod yn adolygu'r gwasanaeth hwn fel y gallwn wella'r cymorth sydd ar gael a chynnig mwy fyth i'r rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn y Cynulliad neu wella eu Cymraeg.

Un o bedwar maes allweddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yw ein haddewid i

> "[f]uddsoddi'n sylweddol mewn technoleg fel ffordd o drawsnewid y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir wrth sicrhau gwerth am arian;"

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi archwilio'r defnydd o gyfieithu peirianyddol, gan ymgynghori â Chanolfannau Rhagoriaeth fel Prifysgol Caerdydd a Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Nod y gwaith hwn oedd galluogi'r Gwasanaeth Cyfieithu i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau drwy gyfieithu mwy o destun mor gyflym ac mor gost effeithiol ag y bo modd. Mae'r defnydd ohono wedi cynyddu'n sylweddol ein gallu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol. Fel rhan o'r adolygiad o'r gefnogaeth a roddir i bwyllgorau, rydym wedi treialu llunio papurau briffio dwyieithog i'r Aelodau er mwyn gwella eu gallu i weithio drwy eu dewis iaith. Caiff y cylchgrawn mewnol i staff y Cynulliad ei gyhoeddi'n gyfan gwbl ddwyieithog erbyn hyn hefyd.

Cyflwynodd Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad ei brofiad o ddefnyddio cyfieithu peirianyddol mewn seminar i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ym mis Mawrth 2014 ac roedd yr adborth yn gadarnhaol.



## Lansio'r Gymraeg ar gyfer Microsoft Translator

Drwy ein gwaith ar gyfieithu peirianyddol, daeth cyfle i weithio gyda Microsoft i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar Microsoft Translator, sy'n golygu y gellir ei ddefnyddio o fewn Microsoft Office a rhaglenni eraill Microsoft. Roeddem am ddarparu cyfleuster cyfieithu y byddai Aelodau a staff yn ei gael yn hawdd i'w ddefnyddio ar eu pennau eu hunain, hwyluso cyfathrebu ac arferion gwaith yn eu dewis iaith, a sicrhau bod y cyfleuster hwn ar gael i Gymru a'r byd.

Lansiwyd cyfleuster byd-eang y Gymraeg ar gyfer Microsoft Translator yn y Senedd ar 21 Chwefror. Mae'n galluogi defnyddwyr Microsoft ar draws y byd i gyfieithu i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg.

Cafwyd sylw byd-eang i'r digwyddiad lansio, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn ogystal â'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaeth â Microsoft. Y fideo a gynhyrchwyd o'r lansiad yw'r ail fideo mwyaf poblogaidd yn hanes y Cynulliad. Roedd y fideo fwyaf poblogaidd yn y DU, UDA, yr Almaen, Hong Kong a Rwsia.

Cafodd y nifer enfawr o ddogfennau dwyieithog sydd gennym ar draws amrywiaeth o feysydd pwnc eu bwydo i'r system. Hefyd, gwahoddwyd sefydliadau eraill i ddarparu data dwyieithog i ni ar gyfer eu bwydo i'r system, ac rydym yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn parhau i weithio gyda Microsoft i wella ansawdd y cyfleuster fel y gall pobl ar draws y byd ddefnyddio'r system yn hyderus.

Nid disodli'r angen am gyfieithu gohebiaeth a dogfennau ffurfiol yn broffesiynol gan gyfieithwyr y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yw'r amcan ond, yn hytrach, cynnig opsiwn arall i ymestyn a gwella cyfathrebu dwyieithog mewn achosion pan na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.


Mae lansio'r Gymraeg ar gyfer Microsoft Translator yn gam pwysig i'w gyflawni, ac yn gam mawr ymlaen o ran gweithio'n ddwyieithog. Mae'r adborth cynnar yn awgrymu ei fod eisoes wedi gwella ffyrdd o weithio'n ddwyieithog yn y Cynulliad. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir a byddwn yn parhau i hyrwyddo a monitro effaith ei ddefnyddio.



**Digwyddiad lansio Microsoft Translator yn y Senedd, o'r chwith: Will Lewis (Microsoft); y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd; Geraint Wyn Parry (Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru); Rhodri Glyn Thomas, Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad**

## Materion Deddfwriaeth a Chyfansoddiadol

Mae'r Cynulliad yn parhau i esblygu fel deddfwrfa, yn gweithio'n hyblyg i graffu ar ystod eang o Filiau sy'n cwmpasu gwahanol feysydd polisi.




**Nifer y dyddiau y cymerodd pob Bil i gwblhau pob cyfnod**

Ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, mae 13 o Ddeddfau wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Ymhlith y rhai a gafodd eu pasio eleni, roedd y Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru), sydd wedi cael llawer iawn o sylw, a gyflwynwyd yn y mis Rhagfyr blaenorol ac a ddaeth i rym ym mis Medi 2013. Pasiodd y Cynulliad hefyd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y darn mwyaf a mwyaf cymhleth o ddeddfwriaeth i'r Cynulliad graffu arno hyd yma.

Yn wahanol i'r pymtheg mis a gymerodd taith y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, o gael ei gyflwyno i ddod yn gyfraith, defnyddiodd y Cynulliad broses llwybr carlam i basio'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) mewn dim ond pedwar mis. Defnyddiwyd weithdrefnau brys am y tro cyntaf, hefyd, i ystyried y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) mewn dim ond deg diwrnod (rhwng 8 a 17 Gorffennaf).

Mae dau o Filiau'r Cynulliad wedi cael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys eleni, am ddyfarniad ar gymhwysedd deddfwriaethol: y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) a'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru). Cyflwynwyd y Bil cyntaf gan Lywodraeth Cymru a'r ail gan Mick Antoniw, Aelod o'r Cynulliad. Yn y ddau achos, mynegodd y Llywydd y farn bod y Bil o fewn cymhwysedd, ond bod y penderfyniad yn un agos iawn. Esboniodd y Llywydd i'r Aelodau yr hyn yr oedd wedi'u hystyried wrth wneud ei phenderfyniad ar gymhwysedd. Disgwylir dyfarniadau gan y Goruchaf Lys yn ystod haf 2014. Byddant yn rhoi arweiniad pellach ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac yn arwain ystyriaethau'r dyfodol o ran Biliau'r Cynulliad.

Ar yr unig achlysur blaenorol y cyfeiriwyd Bil y Cynulliad at y Goruchaf Lys, (*Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012*), dyfarnodd y Llys fod gan y Cynulliad y cymhwysedd gofynnol.

### Deddfwriaeth

### Ebrill 2013 – Mawrth 2014

**01. Llywodraeth Leol**

**02. Trawsblannu Dynol**

**03. Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

**04. Teithio Llesol**

**05. Addysg Bellach ac Uwch**

**06. Cartrefi Symudol**

**07. Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos**

**08. Archwilio Cyhoeddus**

**09. Addysg**

**10. Sector Amaethyddol**

**11. Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

**12. Rheoli Ceffylau**

**13. Tai**

**14. Safleoedd Carafanau Gwyliau**

Gellir gweld ym mha gyfnod y mae holl ddeddfwriaeth y Cynulliad drwy fynd i'r wefan: **cynulliadcymru.org/assembly_acts.**

Eleni, gwelwyd dechrau cynllun newydd, a gymeradwywyd gan y Comisiynwyr ym mis Mehefin 2013, i feithrin a gwella sgiliau drafftio deddfwriaethol cyfreithwyr y Comisiwn. Mae drafftio deddfwriaethol yn sgil arbenigol, sydd ar wahân i feysydd eraill o arbenigedd cyfreithiol ac sydd wedi'i gyfyngu i grŵp bach iawn o ymarferwyr o amgylch y byd.

Mae'r Comisiwn yn ffodus o fod wedi sicrhau gwasanaethau arbenigol Cwnsler Seneddol profiadol, i hyfforddi a mentora cyfreithwyr y Comisiwn yn y sgil unigryw hwn. Hyd yma, mae dau o Filiau'r Cynulliad wedi cael eu cynhyrchu o dan y fenter hon, ac mae un ohonynt eisoes wedi cael ei gyflwyno i'r Cynulliad (y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), a gyflwynwyd gan Darren Millar AC), ac un sydd i gael ei gyflwyno cyn bo hir.

Mae dulliau gweithredu'r Cynulliad o ddydd i ddydd yn rhoi profiad uniongyrchol i Aelodau'r Cynulliad o effeithiolrwydd trefniadau cyfansoddiadol presennol Cymru. Mae'r profiad hwnnw'n hanfodol o ran sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol yn creu setliad mwy effeithiol sy'n haws i bobl Cymru ei ddeall.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad rhan I y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (sef Comisiwn Silk), mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Cymru, er mwyn cyflwyno rhai o'i argymhellion.

Ym mis Ionawr 2014, rhoddodd y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar Fil drafft Cymru, gan ysgrifennu wedyn at yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad i'r sylwadau hyn, pan gyflwynwyd Bil Cymru, roedd yn cynnwys cyfeiriad at ddatganoli rheolaeth ddeddfwriaethol dros weithdrefnau cyllidebol y Cynulliad. Mae hwn yn gam pwysig tuag at sicrhau y gall y Cynulliad graffu'n effeithiol ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio unrhyw bwerau a roddir iddi yn y dyfodol i fenthyca ac amrywio trethi.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Comisiwn Silk ei adroddiad, Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru. Rhoddodd y Llywydd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Comisiwn yn ystod ei waith. Cydnabu'r Comisiwn bwys tystiolaeth y Llywydd mewn perthynas â'r argymhellion canlynol, yn arbennig:

– dylid defnyddio model 'pwerau a gedwir yn ôl' yn lle'r model presennol o 'bwerau a roddir';

– os yw'r Cynulliad yn dymuno newid ei enw i Senedd Cymru, y dylid parchu hynny;

– mynd i'r afael â chapasiti a maint y Cynulliad; a

– chael gwared ar nifer o gyfyngiadau ar y Cynulliad nad ydynt yn briodol bellach.

Wrth i ni aros am ymateb Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i archwilio goblygiadau argymhellion Comisiwn Silk â rhanddeiliaid allweddol.

# ADDYSG: EBRILL 2013 - MAWRTH 2014

**263**
O YMWELIADAU ADDYSGOL Â CHAERDYDD

**7,302** O FYFYRWYR YN BRESENNOL

**8,669** O FYFYRWYR YN BRESENNOL

**256**
O GYFLWYNIADAU ALLGYMORTH ADDYSG

**519** | CYFANSWM YMWELIADAU Â BAE CAERDYDD AC YMWELIADAU ALLGYMORTH

CYFANSWM YMWELIADAU ADDYSG A DIGWYDDIADAU ADDYSG

**445**
O YSGOLION

**17,424**
O DDISGYBLION

# Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Nod y Comisiwn yw creu amgylchedd sy'n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad, ac sy'n hwyluso pobl i gymryd rhan.  Bu cryn arleosi yn y maes hwn trwy gydol y flwyddyn. Mae ein prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn ein democratiaeth. Rydym wedi rhoi pwyslais newydd ar y cyfryngau cymdeithasol i deilwra'r wybodaeth y mae gan bobl ddiddordeb ynddi, mewn fformat y gallant ei ddefnyddio. Rydym wedi parhau â'n rhaglen o ymweld ag ysgolion ledled Cymru ynghyd ag ystod eang o sioeau'r haf i roi gwybod i bobl sut mae eu democratiaeth yn gweithio.

Mae'r Cynulliad wedi croesawu ystod eang o westeion, ac wedi cymryd rhan yn ein hymweliadau rhyngwladol ein hunain.  Rydym yn falch o ddysgu o wledydd a seneddau eraill am sut y gallem wella'r hyn yr ydym yn ei wneud - a rhannu gyda hwythau fel y gallant ddysgu gennym ninnau.

## Ymgysylltu â phobl ifanc

Ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gofynnodd y Llywydd i staff y Cynulliad gynnal ymgynghoriad er mwyn gofyn i bobl ifanc sut y maent yn meddwl y gallwn ni eu cynnwys yn well yng ngwaith y Cynulliad. Cysylltodd y staff â phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed ledled Cymru i gael gwybod beth y gall y Cynulliad ei wneud i alluogi pobl ifanc i ymuno â dadleuon gwleidyddol a mynegi eu barn.

Cafwyd ymateb i'r holiadur gan bron i 3,000 o bobl ifanc. Dyma'r tair prif thema a ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r canlyniadau:

– Estyn allan - mae'n rhaid inni sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gwybod am fusnes y Cynulliad a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw.

– Galluogi trafodaeth - mae angen inni ddarparu ystod o ffyrdd hawdd a di-jargon i bobl ifanc gymryd rhan.

– Adborth - mae'n rhaid inni sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybod cymaint ag y bo modd, mor gynnar ac mor rheolaidd â phosibl, am ganlyniadau eu cyfranogiad.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, buom yn edrych ar yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym a sut y gallem newid y ffordd rydym yn gweithio i alluogi mwy o bobl ifanc i ymgysylltu â gwaith y Cynulliad. Mae gwaith ar y gweill erbyn hyn i ddarparu nifer o ganlyniadau, fel:

– ychwanegu sgiliau gweithiwr ieuenctid at Wasanaeth Addysg presennol y Cynulliad er mwyn gwella ymgysylltiad y tu allan i leoliad yr ysgol;

– datblygu'r wefan **www.dygynulliad.org** fel ei bod yn dod yn ganolbwynt ar-lein i ymgysylltu pobl ifanc â'r Cynulliad;

– datblygu a chyhoeddi Siarter Ymgysylltu sy'n nodi'n glir yr hyn y gall pobl ifanc ei ddisgwyl oddi wrthym ni, a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt hwythau.

Bydd digwyddiad lansio sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf i hyrwyddo'r newidiadau hyn ac annog pobl ifanc i gymryd rhan. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn â phobl ifanc yn ychwanegol at ein gwaith ymgysylltu presennol â phobl ifanc.

## Cynhadledd Gwleidyddiaeth a Llywodraeth



Y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, yn cyfarch dirprwyaeth y Gynhadledd Gwleidyddiaeth a Llywodraeth

Cynhaliodd y tîm Addysg Gynhadledd Gwleidyddiaeth a Llywodraeth ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol ar 19-20 Chwefror 2014, a chafwyd ymateb da iddi. Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyfraniadau gan y Prif Weinidog a Paul Silk, cadeirydd Comisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru, a gweithdai rhyngweithiol o dan arweiniad staff y Cynulliad.

## Digwyddiadau a gwaith allgymorth

Mae Tîm Allgymorth y Comisiwn yn gweithio i roi gwybod i bobl am y ffyrdd y gallant ddylanwadu ar y Cynulliad ac ymgysylltu â'r Cynulliad.

Cynhaliwyd gweithdai cyn-deddfu ledled Cymru cyn y Bil Tai (Cymru) a'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Bwriad y sesiynau hyn oedd cynyddu dealltwriaeth pobl o'r broses ddeddfwriaethol, egluro sut y gallant helpu pwyllgor i graffu ar Fil, a rhannu cyngor yr arfer gorau o ran cyflwyno tystiolaeth yn dda.

Gellir clywed am brofiad dau aelod o'r cyhedd, sy'n dechrau gweithredu fel lanslordiaid preifat ac a ddaeth i un o'r gweithdai, drwy agor y linc isod:
**www.youtube.com/watch?v=cUZrgpX0m2U**

Yn ogystal â hyn, mae'r tîm wedi ymgysylltu â nifer o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, fel RWE, Npower ac Airbus. Cawsant eu croesawu i'r Senedd lle y clywsant am waith y Cynulliad drwy sgyrsiau gan glercod y pwyllgorau, ymchwilwyr a staff allgymorth.

Mae'r tîm hefyd wedi gweithio'n agos gyda grwpiau sgowtiaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu adnoddau ar gyfer bathodyn her democratiaeth. Yn ddiweddar, cynhaliwyd digwyddiadau gydag arweinwyr sgowtiaid i drafod yr adnoddau gyda hwy, a sut y gellir eu defnyddio.

Teithiodd ein tîm digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a chynnal digwyddiadau ar ystad y Cynulliad i ymgysylltu â phobl. Yn ystod haf 2013, ymwelodd bws y Cynulliad â 13 o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol ym mhob rhan o Gymru gan siarad â bron i 10,000 o bobl a'u hannog i ddysgu mwy am y Cynulliad, ei Aelodau a'u gwaith.

Cynhaliwyd digwyddiad am ddim yn y Senedd, i'r teulu, i nodi Dydd Gŵyl Dewi 2014. Roedd gweithgareddau ar gyfer plant, stondinau bwyd, arddangosiadau coginio, sgyrsiau o lawr y Siambr a chafwyd adloniant cerddorol i westeion. Daeth mwy na 1,000 o bobl drwy ddrysau'r Senedd, gan ei wneud yn un o'r diwrnodau prysuraf yn hanes yr adeilad.



## Ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus #POWiPL

Ym mis Ionawr, lansiodd y Llywydd Gynllun Datblygu wedi'i anelu at fenywod o bob cwr o Gymru, fel rhan o'i hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Bydd y cynllun yn darparu hyfforddiant dwys ym maes datblygiad personol a sgiliau, cymorth mentora un-i-un a chyfleoedd cysgodi rôl ar y lefelau uchaf. Y bwriad yw ysgogi ac annog cyfranogwyr ledled Cymru i wneud ceisiadau llwyddiannus am benodiadau cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cynulliad yn cyflwyno'r cynllun mewn cydweithrediad â Chwarae Teg ac Ysgol Fusnes Caerdydd.

Er mwyn datblygu'r ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ymhellach, sefydlodd y Llywydd Glymblaid Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad. Nod y glymblaid yw trafod arfer gorau, yn arbennig gan seneddau eraill o bob cwr o'r byd, er mwyn cynyddu'r gynrychiolaeth seneddol o ran menywod. Bydd hefyd yn dysgu am y mesurau a roddir ar waith gan seneddau a phleidiau i sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli ar lefelau amrywiol. Nod y glymblaid yw cyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau a'i hargymhellion erbyn diwedd 2014.

Cafodd porthol Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd ei lansio ym mis Medi 2013 i annog mwy o fenywod i gyflwyno eu henwau ar gyfer swyddi cyhoeddus. Mae'n cynnwys proffiliau menywod ysbrydoledig, cofnodion blog difyr a manylion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill.

I gydnabod y gwaith hwn a'i blynyddoedd o wasanaeth, cafodd y Llywydd ei gwneud yn Fonesig yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2014. Cafodd yr anrhydedd yn sgîl ei gwasanaethau gwleidyddol a chyhoeddus i fenywod a democratiaeth.




**Y Fonesig Rosemary Butler yn lansio'r Cynllun Datblygu er mwyn annog mwy o fenywod i mewn i fywyd cyhoeddus**


PUBLIC LIFE • MENYWOD MEWN
THIS YEAR...
I.W.D. 2014
CREATE
SUSTAINABLE
CHANGE
WOMEN IN
BUSINESS
WORKING
WITH
CHWARAE
TEG

# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: EBRILL 2013 - MAWRTH 2014

MAE NIFER YR YMWELIADAU Â'N SIANEL YOUTUBE WEDI CYNYDDU

**124%**

**62%**

O'N FIDEOS YOUTUBE YN CAEL EU GWYLIO AR DDYFEISIADAU SYMUDOL BELLACH

**27**

O GYFRIFON TWITTER GWEITHREDOL

@CynulliadCymru
@AssemblyWales
BELLACH YN GYFRIFON WEDI'U DILYSU GAN TWITTER

MAE EIN DILYNWYR TWITTER WEDI CYNYDDU DROS

**54%**

MEWN 12 MIS

MAE NIFER Y BOBL SY'N EIN HOFFI AR FACEBOOK WEDI CYNYDDU

**43%**

## Cynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol

Un o'r ffyrdd yr ydym wedi ceisio gwneud gwaith y Cynulliad yn fwy hygyrch yw drwy fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy dechnoleg newydd a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein gweithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn wrth i ni chwilio am ffyrdd newydd o anfon gwybodaeth.

Rydym wedi cynyddu nifer ein sianelau Twitter o naw i 27 o sianelau, gan ganiatáu ar gyfer mwy o arbenigedd. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd â diddordeb ym maes iechyd, er enghraifft, yn gallu cael gwybodaeth wedi'i theilwra i'w diddordebau. O ganlyniad, mae nifer ein dilynwr wedi cynyddu'n sylweddol dros 54% mewn dim ond deuddeg mis.

**Mae uchafbwyntiau ein gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:**

- cafodd ein prif gyfrifon Twitter corfforaethol eu dilysu'n swyddogol - nod i brofi bod y rhain yn ddilys;
- roedd 27 o sianelau Twitter yn weithredol ar 31 Mawrth 2014 (nifer a fydd yn cynyddu);
- llwytho cynnwys cyfoethocach gan gynnwys delweddau, lincs a galwadau eraill i weithredu; a
- cyflwyno gwell offer mesur.

Mae ein tudalennau Facebook wedi cynyddu o dair i bump a chyflwynwyd tudalenau Dy Gynulliad Di fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â phobl ifanc. Yn sgîl y rhain, a'n tudalennau a oedd eisoes yn bodoli, mae nifer y bobl sy'n ein 'Hoffi' wedi cynyddu dros 43%.

Yn 2014 hefyd, cafwyd twf aruthrol yn y defnydd o fideo ar sianel YouTube y Cynulliad (twf o 395% yn 2013). Rydym hefyd wedi canfod bod mwy o bobl yn dewis gweld ein cynnwys YouTube ar ddyfais symudol.


Nid dim ond rhannu ein cynnwys yn fwy eang a'i wneud yn fwy hygyrch oedd diben ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi canolbwyntio'n helaeth ar ddefnyddio grym y cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i gyfranwyr newydd i fusnes y Cynulliad. Yn ogystal â chynnal gwe-sgyrsiau fel y gall pobl gyfrannu at ymchwiliadau pwyllogaru o leolaidau y maent hwy'n eu dewis, rydym hefyd wedi bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i gyfranogwyr ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau a busnes y Cynulliad, gan ddefnyddio hashnodau penodol. Er enghraifft, cafodd pobl Cymru gyfle i gyfrannu at y broses graffu yn 2013 pan ofynnwyd iddynt gyflwyno cwestiynau i'r Prif Weinidog gan ddefnyddio'r hashnod #gofynprifwein.

Arweiniodd rhaglen cyfryngau cymdeithasol helaeth, gan gynnwys fideos ar Facebook i hyrwyddo Cynllun Prentisiaeth newydd y Cynulliad, at gynnydd o 70% yn nifer y ceisiadau.

Mae'r mentrau hyn wedi caniatáu i ni ategu ein gweithgarwch ymgysylltu presennol a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Yn ogystal ag ymestyn y sianelau ar gyfer darlledu newyddion y Cynulliad, rydym hefyd wedi datblygu llwyfannau newydd i wneud y cynnwys yn hygyrch i bobl Cymru. Lansiodd y Gwasanaeth Ymchwil y blog 'Pigion / In Brief' ym mis Hydref 2013, gan ddilyn esiampl Senedd Awstralia. Mae'r blog yn ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu fel rhan o waith y gwasanaeth ar gyfer Aelodau a'u staff i gyflwyno casgliad amrywiol o erthyglau ymchwil byr a hygyrch ar faterion cyfoes. Mae hyn yn cynnwys crynodebau o bolisïau, diffiniadau cyfreithiol, Cwestiynau Cyffredin a dadansoddiadau ystadegol. Caiff yr erthyglau eu trefnu yn ôl pwnc, felly gellir dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym. Mae papurau ymchwil, hysbysiadau hwylus a nodiadau ymchwil hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y safle: **http://pigion.wordpress.com**

# HYRWYDDO CYMRU O AMGYLCH Y BYD



## Ymweliadau mewnol

**Montenegro**
11 Ebrill

**Malta**
16 Mai

**Panama**
10 Mehefin

**Bafaria**
11 Mehefin

**Yr Iseldiroedd**
17 Mehefin

**Quebec**
09 Gorffennaf

**Fiet-nam**
06 Medi

**Tsieina**
06 Medi

**Latfia**
12 Medi

**Lithwania**
01 Hydref

**Bwlgaria**
08 Hydref

**Macedonia**
10 Hydref

**Llundain**
24 Hydref

**Y Swistir**
25 Hydref

**UDA**
06 Tachwedd

**Yr Ariannin**
05 Rhagfyr

## Ymweliadau allanol

**Fenis**
15 Ebrill

**Singapôr**
27 Mai

**Seville**
28 Mai

**Dulyn**
17 Mehefin

**Dulyn**
24 Mehefin

**De Affrica**
31 Awst

**Llundain**
20 Hydref

**Dulyn**
30 Mawrth

## Hyrwyddo Cymru o amgylch y byd

Rhan o waith y Cynulliad yw hyrwyddo Cymru ar lwyfan rhyngwladol yn ogystal â llwyfan cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ar draws y Cynulliad ac yn aml yn cael ei arwain gan Aelodau unigol.

Mae gwaith ar lefel Ewropeaidd wedi gweld y Cynulliad yn parhau i chwarae rhan gadarnhaol o ran ymgysylltu â pholisïau'r UE a'r broses ddeddfu o ran meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i Gymru. Mae tystiolaeth glir o Frwsel bod y Cynulliad yn un o'r deddfwrfeydd mwyaf gweithgar o ran trafod materion yr UE ac ymgysylltu cadarnhaol â sefydliadau'r UE. Mae Aelodau a phwyllgorau yn cael cymorth ar gyfer y gwaith hwn ar draws y sefydliad ac rydym wedi gweld ymgysylltiad sylweddol â gweithgareddau'r UE ac enghreifftiau o weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws Cymru ac ym Mrwsel.

Mae Aelodau o bob rhan o'r Cynulliad wedi cynrychioli'r sefydlid ar lefel ryngwladol drwy rwydweithiau eang, gan gynnwys Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA), Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a'r Cyngor Prydeinig-. Mae dau gynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau (CoR) wedi cymryd rhan weithredol ac wedi dylanwadu ar drafodaethau ynghylch materion sy'n effeithio ar Gymru. Yn ystod 2013, roedd Rhodri Glyn Thomas yn rapporteur ar dair barn, sy'n nifer digynsail a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor. Roedd dwy yn ymwneud â synergedd cyllidebau a chyllid preifat / cyhoeddus, ac roedd Mick Antoniw yn rapporteur ar un adroddiad – ac yntau ond wedi'i benodi o fewn ychydig wythnosau i ddechrau yn y Pwyllgor, sy'n dipyn o gamp. Mae Mick Antoniw AC wedi dod yn ffigur amlwg yn y pwyllgor yn ystod argyfwng Wcráin hefyd, yn cymryd rhan mewn dwy ddirprwyaeth wleidyddol lefel uchel i Wcráin, cwrdd â Phrif Weinidog Wcráin a ffigurau pwysig eraill yn llywodraeth a chymdeithas sifig Wcráin. Drwy'r gwaith hwn, mae'r ddau aelod wedi siarad mewn nifer o gynadleddau ym Mrwsel ac wedi cadeirio rhai, ac mae David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, wedi bod ar banel ac yn Gadeirydd dwy gynhadledd yr UE ar sybsidiareddd a seneddau rhanbarthol.

Mae'r Llywydd wedi cymryd rhan weithredol mewn cyfarfod o CALRE (rhwydwaith yr UE o seneddau rhanbarthol a chynulliadau) ac wedi cynnal y cyfarfod hwnnw ac mae'r Dirprwy Lywydd yn aelod o Fforwm CE-DU, sef cyfarfod anffurfiol ddwywaith y flwyddyn o Gadeiryddion y Pwyllgorau Ewropeaidd (neu gyfatebol) yn y DU a deddfwrfeydd datganoledig . Mae'r Pwyllgorau wedi trafod ystod o faterion yr UE sy'n effeithio ar Gymru ac mae'r Aelodau wedi cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Senedd Ewrop o Gymru, cynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd a phobl allweddol eraill sy'n gwneud penderfyniadau yn Ewrop.

Mae Swyddfa'r UE a'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio amrywiaeth o gyhoeddiadau rhagweithiol i gefnogi gwaith yr Aelodau ar faterion yr UE, gan gynnwys Diweddariad Wythnosol yr UE, Papurau Ymchwil, Nodiadau Ymchwil, Diweddariad Polisi'r UE a blogiau, yn ogystal â lansio ffrwd Twitter newydd @SeneddEurope. Mae llawer o'r dogfennau hyn wedi'u hanelu at y cyhoedd ehangach yng Nghymru, i godi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau allweddol yng Nghymru, esbonio'u perthnasedd a'u heffaith bosibl, yn ogystal â dilyn trywydd cinigion drwy broses gwneud penderfyniadau'r UE.



# Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian yn flaenoriaeth i'r Cynulliad.

Eleni, cyflwynwyd adroddiadau perfformiad corfforaethol rheolaidd newydd er mwyn galluogi Aelodau a'r cyhoedd i gael cipolwg ar ein perfformiad. Rydym wedi cadw ac wedi ennill gwobrau newydd sy'n atgyfnerthu ein henw da fel un o'r lleoedd gorau i weithio yng Nghymru. Rydym hefyd wedi buddsoddi i wella hygyrchedd a chynaliadwyedd ystâd y Cynulliad.

Yn arwyddocaol, rydym wedi gwneud newid mawr yn y ffordd yr ydym yn darparu ac yn rheoli gwasanaethau TGCh, gan wella gwasanaethau a lleihau costau. Caiff dull llywodraethu'r Cynulliad ei drafod yn fanylach yn y Datganiad Llywodraethu ( tudalen 71). Mae'r datganiad eleni yn nodi cynnydd mewn sawl maes ac yn cynnwys llond llaw o feysydd ar gyfer gwella yn y flwyddyn i ddod.

## Cyllideb a Pherfformiad

Gan adeiladu ar ein llwyddiant wrth gyflwyno sefyllfa ariannol 2012-13, cafodd ein targed corfforaethol ei ddiwygio i anelu at gyflawni'r alldro eleni o fewn 1% i gyllideb y Comisiwn, sef £49.9 miliwn (y targed oedd 2% yn 2012-13 a chyflawnwyd 0.7% i'r gyllideb). Gyda gwelliannau'n prosesau cynllunio, gan ehangu'r gorwel cynllunio i edrych ar y Cynulliad nesaf, ynghyd â dull mwy cadarn a heriol i benderfyniadau buddsoddi a gwybodaeth reoli ariannol gwell, cyflawnwyd canlyniad gwych o ddim ond £34,000 o'n Cyllideb 2013-14 heb ei wario (targed 1% a chyflawnwyd 0.07%).

Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi gallu ymateb yn gyflym i newidiadau yn anghenion ariannol ein prif brosiectau TGCh, gan gynnwys y Prosiect TGCh ar gyfer y Dyfodol a ryddhaodd arian y gyllideb nad oes ei angen mwyach. Wrth i anghenion ariannu prosiectau newid, roedd hyn yn ein galluogi i gyflymu ein cynlluniau ar gyfer uwchraddio darlledu, ychwanegu adnoddau cefnogi prosiectau i brosiect y Gyflogres Adnoddau Dynol ymhellach a gweithredu camau pellach o ran gosod WiFi ar draws ystâd Bae Caerdydd.

Roedd cadarnhad cynnar bod angen llai o gyllid ar gyfer lwfansau swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a chostau staff cymorth, ynghyd âg arbedion cynyddol Gwerth am Arian, yn ein galluogi i gwblhau costau adnewyddu swyddfeydd a nodwyd yn yr Adolygiad o'r Defnydd o Ofod ar yr Ystâd a thalu costau annisgwyl fel trwsio'r to oedd yn gollwng yng Nhŷ Hywel. Roedd yn bosibl inni hefyd ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad wrth i'r rhaglen ddod yn fwy poblogaidd a diwallu'r angen am ragor o arian cyfieithu a oedd yn deillio o ragor o weithgareddau deddfu a phwyllgorau.

Yn benodol o ran y rhaglen Gwerth am Arian, rydym wedi rhagori ar ein targed am y drydedd flwyddyn yn olynol. Ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi cyflawni arbedion Gwerth am Arian cronnus o dros £3m gyda nifer o newidiadau, fel y rhai i ddod â'r gwasanaeth TGCh yn fewnol, gan leihau costau gwaelodlin ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae sgiliau'r tîm Caffael hefyd yn gwneud cyfraniadau sylweddol. Yn 2013-14, roedd 22% o'r arbedion o ganlyniad uniongyrchol i'r sgiliau a'r prosesau proffesiynol y mae'r tîm Caffael wedi'u cyflwyno. Mae hwn yn faes gwelliant inni ac, er ein bod yn ceisio cynnal y targed Gwerth am Arian o £500,000 yn 2014-15, rydym yn disgwyl cynyddu'r cyfraniad o feysydd gwariant nad yw'n wariant staffio. Yn 2013-14 bu'r tîm Caffael yn ymdrin â chontractau a oedd yn werth cyfanswm o £1 miliwn gan sicrhau arbedion o £0.3 miliwn dros hyd y contract. Maent yn edrych yn debygol o barhau'r duedd hon yn 2014-15 gyda chontract cyntaf y flwyddyn yn sicrhau arbedion o 28%.

Yn ystod ei waith o graffu ar gyllideb y Comisiwn y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylem gyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol er mwyn rhoi sicrwydd iddo fod ein cyllideb yn cael ei defnyddio'n ddoeth ac yn effeithiol. Eleni, cyhoeddodd y Comisiwn Adroddiad Perfformiad Corfforaethol ar

ddiwedd pob tymor, ar gyfer y cyfnodau: Ebrill-Mehefin, Ebrill-Rhagfyr ac Ebrill-Mawrth. Mae hyn yn rhoi darlun o'r hyn a gyflawnwyd dros gyfnod o amser, gyda'r bwriad o ddilyn yr un patrwm o adrodd yn y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae adroddiadau yn dangos y gwelwyd cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd. Roedd y dangosyddion ar gyfer y rhaglen gwerth am arian, perfformiad cyllidebol, a strwythurau llywodraethu yn gyson gryf drwy gydol y flwyddyn.  Prosiectau llwyddiannus eraill oedd y prosiect trawsnewid TGCh a'r prosiect cyfieithu peirianyddol. Bydd rhai dangosyddion yn cael eu haddasu ar gyfer y flwyddyn nesaf, i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol, ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol at ddibenion monitro.

Caiff yr adroddiadau eu rhannu â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad a'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

Mae gan y sefydliad lawer iawn o gryfderau, a gaiff eu hamlygu drwy gydol yr adroddiad hwn ...

Mae'r rhai a gafodd eu cyfweld yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn am y sefydliad, a'r ffyrdd y mae'n ceisio rheoli, datblygu a chefnogi ei holl weithwyr.

Wrth ystyried y sefydliad o'i gymharu â'r fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl, mae'n amlwg bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn perfformio mewn modd rhagorol a gall fod yn falch iawn o'i ddull o reoli, datblygu a chefnogi ei bobl.

**Dyfyniad o lythyr Buddsoddwyr mewn Pobl**

## Cyflogwr rhagorol

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cynulliad ei ail wobr Aur Buddosddwyr Mewn Pobl. Nododd yr Asesywr bod y Cynulliad yn enghraifft dda o ran ei ddull rheoli, datblygu a chefnogi ei staff.
Rydym hefyd yn falch o gyrraedd rhif 11 ymysg cwmnïau'r DU ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall o'r cyflogwyr gorau a chael ein henwi'n gyflogwr gorau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Am y tro cyntaf hefyd, cawsom ein henwi yn rhestr *The Times* o'r 50 o gyflogwyr gorau ar gyfer Menywod 2014.

Un maes lle rydym wedi nodi lle i wella yw ein gweithgareddau recriwtio a hyrwyddo staff Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi buddsoddi mewn swydd newydd tymor penodol i gydgysylltu Cynllun Gweithredu gwella Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'i roi ar waith, i gefnogi staff presennol sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac i gynyddu eu cynrychiolaeth yng ngweithlu'r Cynulliad.

Mae'r rhaglen secondiadau yn parhau i fod yn ddull gweithredol o ddatblygu staff, adeiladu rhwydweithiau, rhannu arfer gorau ac ailddosbarthu ein hadnoddau yn briodol. Mae'r lleoliadau allanol wedi cynnwys Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Sir Gwynedd, Chwaraeon Cymru, Senedd yr Alban, Tŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Llundain a Swyddfa Brwsel.

Ym mis Hydref 2013, lansiodd y Cynulliad Gynllun Prentisiaeth newydd yn dilyn llwyddiant cynllun peilot y flwyddyn flaenorol. Llwyddodd y pedwar o bobl ifanc a oedd yn rhan o'r cynllun peilot i ennill eu cymwysterau NVQ mewn Gweinyddu Busnes a sicrhau cyflogaeth yn y Cynulliad.

Mae'r Cynllun Prentisiaeth yn cynnig rhaglen hyfforddiant sy'n seiliedig ar ddysgu dros gyfnod penodol (15 mis) gydag ymgeiswyr yn ennill cymhwyster y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, a ddarperir gan Goleg Caerdydd a'r Fro, mewn cymwyseddau penodol sy'n seiliedig ar waith a sgiliau gweinyddol cyffredinol. Darperir hyfforddiant a mentora i helpu'r prentisiaid i ymgyfarwyddo ag amgylchedd gwaith.

Ymunodd chwe phrentis newydd (rhwng 16 a 24 oed) â'r Cynulliad ar 3 Chwefror 2014. Bydd pob un yn ennill cyflogau ar sail Cyflog Byw.

Yr absenoldeb salwch oedd 2.49%, neu 5.48 diwrnod gwaith ar gyfartaledd fesul gweithiwr. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol, sef 7.6 diwrnod y flwyddyn (adroddiad absenoldeb blynyddol CIPD a gyhoeddwyd fis Hydref 2013).

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE · YN GADARN O BLAID POBL ANABL

yn cefnogi AGE POSI+IVE

Top Employers for Working Families

LOUDER THAN WORDS

THE TIMES TOP 50 EMPLOYERS FOR WOMEN 2014

in partnership with opportunitynow men | women | workplace

Stonewall STAR PERFORMER NETWORK GROUP 2014 PERFFORMIWR ARBENNIG GRŴP RHWYDWAITH

Stonewall TOP 100 EMPLOYERS 2014 100 CYFLOGWR GORAU

## Gwelliannau i'r ystâd

Rydym wedi gwneud cyfres o welliannau i wead ystâd y Cynulliad. Roedd mawr angen rhywfaint o'r gwaith adnewyddu, a rhywfaint ohono'n fwy rhagweithiol, ond mae pob un o'r newidiadau wedi cael ei wneud gyda'r bwriad o wella hygyrchedd, profiad ymwelwyr a lleihau effaith y Cynulliad ar yr amgylchedd.

Cafodd mynedfa a derbynfa Tŷ Hywel, sef yr 'argraff gyntaf' a gaiff y 30,000 o ymwelwyr a 100,000 o bobl sy'n mynd drwy'r ardal hon, eu hadnewyddu am y tro cyntaf ers 2003.

Mae'r prosiect wedi:

- gwella cyfleusterau derbynfa ar gyfer ymwelwyr;
- gwella a chynyddu cyfleusterau sgrinio diogelwch preifat;
- gwella cynaliadwyedd drwy gadw gwres o fewn y fynedfa i'r adeilad, lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon; a
- chreu ystafelloedd cyfweld ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad gwrdd â'u hetholwyr.




**Mae’r dderbynfa ar ei newydd wedd yn Nhŷ Hywel yn sicrhau nad oes angen i grwpiau mawr o ymwelwyr sefyll mewn ciw y tu allan ym mhob tywydd**




**Aelodau o’r Pwyllgor Deisebau yn derbyn deiseb y tu allan i’r arwydd newydd.**

Er mwyn gwella hygyrchedd ac ymwybyddiaeth rydym hefyd wedi ymgymryd â phrosiectau i gyflwyno mwy o fesurau diogelwch cyfeillgar i ymwelwyr ac arwyddion i egluro'r gwaith sy'n digwydd yn y Senedd. Cafwyd adborth cynnar cadarnhaol gyda nifer o ymwelwyr yn cael tynnu eu lluniau o flaen yr arwydd i nodi eu hymweliad â'r Cynulliad.

Gan ddefnyddio'r gofod a adawyd gan y GIG ac addasu'r gofod a ddefnyddir gan staff y Comisiwn, rydym wedi gallu cyd-leoli timau a gwasanaethau, ei gwneud yn haws i Aelodau gael gafael ar staff, a gwneud lle i'r twf yn nifer y staff TGCh sy'n deillio o benderfyniad y Comisiwn i ddod â gwasanaethau TGCh yn fewnol .

Mae'r gwelliannau hyn wedi ein galluogi i gynyddu'r gofod sydd gennym i weithio ynddo 15%.

## Trosglwyddo'r Gwasanaeth TGCh a Datblygu Strategaeth TGCh

Ym mis Mawrth 2014, cafodd y cyfrifoldeb dros ddarparu a rheoli gwasanaethau TGCh ei drosglwyddo o'r trefniadau ar gontract allanol trwy Lywodraeth Cymru, a oedd wedi bod yn weithredol ers y Cynulliad Cyntaf, i wasanaeth mewnol newydd. Roedd hwn yn benderfyniad arwyddocaol i'r Comisiynwyr gan ei fod yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r risgiau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Comisiwn. Fodd bynnag, mae'r rhaglen drosglwyddo 16 mis wedi cael ei chyflawni o flaen ei hamser ac o fewn y gyllideb a chyflawnwyd y newid ei hun heb unrhyw drafferthion. Mae'r trefniadau newydd eisoes yn cyflawni buddiannau, gan gynnwys arbedion ariannol sylweddol o tua £500,000 y flwyddyn, sy'n deillio o newidiadau i rai gwasanaethau craidd a gwelliannau i wasanaethau, fel y Ddesg Gymorth TGCh newydd.

Er bod llawer o'r ffocws yn 2013-14 wedi bod ar drosglwyddo'r gwasanaeth yn llwyddiannus, mae'r gwasanaeth mewnol wedi ymgartrefu ac mae'r capasiti a'r gallu newydd wedi ein galluogi i wneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn y Strategaeth TGCh. Mae'r cyflawniadau nodedig yn cynnwys:

– lansio'r prosiect i greu gwefannau newydd, a fydd yn gwella defnyddioldeb ac effeithiolrwydd gwefannau'r Cynulliad yn sylweddol;

– cyflwyno rhai gwelliannau seilwaith TGCh sylweddol i gynyddu gwytnwch, lleihau cymhlethdod a rhoi llwyfan TGCh mwy hyblyg i'r Comisiwn er mwyn adeiladu ar gyfer y dyfodol. Hwyluswyd hyn gan y ffaith bod y Rhaglen Drosglwyddo wedi cael ei chwblhau yn gynnar ac o fewn y gyllideb;

– gwneud cynnydd da gyda'n Strategaeth Cymwysiadau; y peth cyntaf a gyflawnir o ganlyniad i hyn yw'r prosiect i greu gwefannau newydd. Dros y tair blynedd nesaf, bydd y Strategaeth hon yn sicrhau newid sylweddol yn y ffordd rydym yn dewis ac yn defnyddio cymwysiadau meddalwedd. Byddwn yn symud i systemau gwybodaeth integredig sy'n fodel i brosesau busnes, ac y gellir eu teilwra i'n hanghenion sy'n newid; ac

– uwchraddio Senedd TV. Bydd hyn yn caniatáu i ddarllediadau byw o'r Senedd gael eu gwylio ar unrhyw ddyfais a bydd y defnyddiwr yn gallu i oedi, mynd yn ôl ac ail-wylio'r darllediad. Mae'r nodweddion eraill yn cynnwys penawdau byw, lincs i eitemau ar yr Agenda a'r gallu i chwilio drwy'r Cofnod ysgrifenedig a chwarae'r fideo sy'n gysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi cyflwyno:

– uwchraddio cyfleusterau fideo-gynadledda yn yr ystafelloedd pwyllgora a'r ystafell fideo-gynadledda;

– treialu dehongli Iaith Arwyddion Prydain o gwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar y cyd ag S4C;

– darparu papurau pwyllgor preifat i Aelodau ar iPads;

– uwchraddio systemau sain y Siambr, sydd wedi gwella'r sain byw a'r sain a gaiff ei darlledu, yn enwedig o seddi'r Gweinidogion;

– gosod system sain newydd yn yr oriel gyhoeddus.

Bydd y Strategaeth TGCh yn parhau i fod yn sbardun pwysig ar gyfer newid ac arloesi wrth gyflwyno amcanion y Comisiwn ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. Gan edrych ymlaen, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall anghenion yr Aelodau o ran TGCh yn y Siambr ar gyfer y Cynulliad hwn a'r nesaf. Bydd cryn sylw yn cael ei dalu i wella gwasanaethau TGCh y swyddfeydd etholaethol. Ym mis Medi 2014, bydd y Cynulliad yn symud i'w enw parth ei hun ar y rhyngrwyd: **www.cynulliad.cymru** / **www.assembly.wales** ac yn gynnar yn 2015, bydd system ffôn newydd yn cael ei chyflwyno.



# Adroddiad Cynaliadwyedd

O dan Adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn ei holl waith.

Fel sefydliad blaenllaw yn y sector cyhoeddus, mae gennym rôl hefyd yng nghyswllt hyrwyddo datblygu cynaliadwy a sicrhau bod ein gweithrediadau'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd. Yn 2009, dechreuodd y Cynulliad weithio tuag at ddod yn sefydliad carbon isel erbyn 2015. Mae ein gweledigaeth yn nodi ein huchelgeisiau allweddol mewn perthynas â chynaliadwyedd gweithredol, sydd wedi'u seilio ar yr hyn a wnawn sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd: gostyngiad o 40% mewn allyriadau ynni, gostyngiad o 15% mewn allyriadau a gynhyrchir drwy deithio ar fusnes, sicrhau bod adeiladau'r Cynulliad yn effeithlon a chael diwylliant gweithio cyfrifol. Yn 2013-14, gellid priodoli 90% o gyfanswm ein hallyriadau i'r defnydd o drydan a nwy, felly mae lleihau'r defnydd o ynni yn parhau i fod yn gonglfaen i'n strategaeth gynaliadwyedd.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw, ac rydym wedi cyhoeddi data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd ers 2007-08. Rydym yn mesur ac yn cyhoeddi'r data ynghylch ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfrwng Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

## Crynodeb o Berfformiad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i weithredu mesurau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n hystâd ac wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni gostyngiad pellach o 7% yn ein hôl troed carbon cyffredinol. Mae cyfran o'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r tywydd mwyn rydym wedi ei brofi drwy gydol y flwyddyn, gan leihau'r angen i oeri a gwresogi yn fecanyddol ar draws ein hadeiladau. Mae parhau i fuddsoddi ac uwchraddio gwead yr adeilad, prosiectau a gwaith adnewyddu sy'n sicrhau effeithlonrwydd ynni, y ffaith yr anfonnir llawer yn llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, a gostyngiad mewn allyriadau dŵr hefyd wedi cyfrannu. Ers 2008-09 rydym wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni gostyngiad o 29% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr net.

## Ardystio prosesau rheoli amgylcheddol

Llwyddwyd i aros ar Lefel 5 (sef lefel uchaf bosibl) Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, a hynny am y chweched flwyddyn yn olynol. Mae ymrwymiad parhaus i sicrhau ein bod yn cynnal yr ardystiad hwn yn darparu system o sicrwydd ar gyfer sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol. Mae hefyd yn ganolog o ran canfod, monitro a rheoli ein heffeithiau amgylcheddol er mwyn ein galluogi i wneud penderfyniadau, datblygu polisi a rheoli risg yn wybodus. Mae'r Safon Rheoli Amgylcheddol hefyd yn ddull o lywio gwelliannau amgylcheddol ac ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws y Cynulliad.

## Ynni

Rydym wedi cyflawni gostyngiadau allyriadau trydan o 6.5% ar draws yr ystâd a gostyngiad o 18% mewn allyriadau nwy o gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad cronnol o 8.7% ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn deillio yn bennaf o ddau ffactor allweddol: llai o alw am nwy a thrydan oherwydd tywydd mwyn drwy gydol y flwyddyn a newid yn y ffactor allyriadau ar gyfer trydan o'r grid yn dilyn adolygiad sylweddol o'r ffactorau trosi carbon gan Defra. Rydym hefyd wedi cynnal ymyriadau arbed ynni pellach ar draws ein swyddfeydd, fel gwell rheolyddion gwres, golau sy'n synhwyro symudiadau, gosod goleuadau LED, gwell inswleiddio ac effeithlonrwydd ynni yn ein mynedfa i'r swyddfa a defnyddio ffilm solar perfformiad uchel ar wynebau'r adeilad sydd fwyaf agored i'r haul. Mae gostyngiadau cronnus mewn allyriadau ynni yn gyfystyr â 34% dros y chwe blynedd diwethaf yn erbyn

blwyddyn gwaelodlin 2008-09 ac mae cynlluniau ar waith i'n helpu i gyrraedd y targed o 40% o ostyngiad.

## Teithio

Mae allyriadau teithio ar fusnes wedi cynyddu 4.7% o'i gymharu â 2012-13. Gellir priodoli hyn bron yn gyfan gwbl i gynnydd o 17% mewn milltiroedd teithio mewn ceir preifat o 442,017 milltir yn 2012-13 o'i gymharu â 516,440 milltir yn 2013-14. Y defnydd o geir preifat yw'r ffynhonnell fwyaf o hyd o ran allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio ar fusnes gyda chyfran o 72% o gyfanswm yr allyriadau teithio. Er gwaethaf y cynnydd hwn, rydym wedi cyflawni gostyngiad o 13.4% mewn allyriadau teithio ar fusnes yn gyffredinol ers blwyddyn waelodlin 2008-09 gan sicrhau ei bod yn bosibl y byddwn yn dal i allu cyflawni ein nod o leihau allyriadau 15% erbyn 2015.

Mae chwarter o'r holl deithiau ar fusnes yn awr yn cael eu gwneud ar fysiau neu drenau ac rydym wedi cynyddu ein defnydd o drenau ar gyfer busnes 15% ers 2008-09.

Rydym wedi cynyddu yn raddol y defnydd o gar cronfa allyriadau isel 9.5% dros y pedair blynedd diwethaf.

Rydym wedi gostwng y sgôr allyriadau cyfartalog ar gyfer ein ceir llogi i 103g/CO2, gostyngiad o 21% o'i gymharu â 2011-12.

## Gwastraff

Mae swm y gwastraff yr ydym yn ei waredu yn debyg o ran cyfaint i 2012-13, fodd bynnag, bu gostyngiad pellach o 62% yn y cyfaint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi sydd bellach yn cynnwys dim ond 6.5 tunnell o gyfanswm y cyfaint gwastraff o 120 tunnell. Mae hyn yn dod â ni o fewn cyrraedd i'n targed o beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi. Mae'r gostyngiad hwn o ran tirlenwi hefyd wedi cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ein hôl troed gwastraff gyda gostyngiad pellach o 57% mewn allyriadau gwastraff o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Rydym wedi parhau i wella'r cyfleusterau a'r trefniadau ar gyfer gwahanu'r gwastraff a waredir ar draws ein hystâd yn enwedig pan fo cyfle i wneud hynny, fel adnewyddu swyddfeydd. Mae hyn wedi helpu i gynyddu faint o wastraff cymysg a gaiff ailgylchu (cerdyn, papur, plastig) yn y swyddfa 10% o'i gymharu â 2012-13.

Rydym wedi gweithio'n galed i ehangu cwmpas a gwella ansawdd y data gwastraff rydym yn ei gasglu i sicrhau ein bod yn deall ac yn gallu lleihau ein hôl troed gwastraff.

## Dŵr

Rydym wedi cyflawni gostyngiad ymylol o 1.8% yn y defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad o'i gymharu â blwyddyn waelodlin 2010-11, sy'n golygu ein bod yn annhebygol o gyrraedd ein targed lleihau o 10% erbyn 2015. Fodd bynnag, mae ein defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad yn ein dau adeilad mwyaf, Tŷ Hywel a'r Senedd wedi gostwng 12% a 9% yn y drefn honno yn ystod yr un cyfnod. Mae gollyngiadau dŵr wedi cynyddu ychydig i 2.5% o ganlyniad i drin mwy o ddŵr llwyd a ddefnyddir yn y Senedd dros y flwyddyn o gyfnodau hir o law trwm.

Llwyddwyd i gasglu dŵr glaw at ddibenion glanweithiol a golchi adeiladau, a oedd yn cyfateb i oddeutu 74% o anghenion dŵr y Senedd.

Rydym wedi llwyddo i leihau ein defnydd o ddŵr yn Nhŷ Hywel 25% ers 2009-10 o ganlyniad i osod dyfeisiau arbed dŵr ar draws yr adeilad.

## Gwella'n barhaus

Bob blwyddyn, rydym yn ymdrechu i wella ansawdd a hygrededd y data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd drwy ddatblygu dulliau cadarn o gasglu data, er mwyn dangos ein hymrwymiad i gyflwyno adroddiadau clir ar yr holl ffyrdd yr ydym yn effeithio ar yr amgylchedd. Cefnogir hyn gan adolygiadau parhaus, archwiliadau mewnol ac allanol a, lle y bo'n bosibl, asesiadau dilysu sylfaenol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2014 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n berthnasol i'r DU yn unig. Eleni, ailwampiodd Defra y ffactorau trosi ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn helaeth. Felly, er mwyn cysondeb, mae data'r flwyddyn gyfredol a phob blwyddyn flaenorol wedi cael eu diweddaru yn unol â ffactorau trosi 2014 (a ffactorau allyriadau hanesyddol lle bo'n berthnasol) er mwyn caniatáu ar gyfer cymariaethau cywir o ran perfformiad. Yn unol â chanllawiau Defra, ni chaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr eu cywiro i adlewyrchu ffactorau yn ymwneud â'r tywydd.

### Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

| | | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO_2e$)** | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 1 | 299 | 295 | 390 | 330 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 2 | 1,765 | 1,517 | 1,487 | 1,382 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 3 | 362 | 439 | 435 | 431 |
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpasau | 170 | 313 | 298 | 167 |
| | Cyfanswm gross yr allyriadau | 2,597 | 2,565 | 2,611 | 2,319 |
| | **Cyfanswm net yr allyriadau** | 2,427 | 2,252 | 2,314 | 2,143 |
| | Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

### Y defnydd o ynni[1,6]

| | | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat)** | Trydan (anadnewyddadwy) | 3,633,186 | 3,352,734 | 3,229,581 | 3,099,520 |
| | Nwy | 1,558,955 | 1,213,886 | 1,753,785 | 1,438,900 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 480,480 | 885,500 | 840,438 | 470,750 |
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO_2e$)** | Cyfanswm allyriadau ynni | 2,235 | 1,901 | 1,974 | 1,802 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Cyfanswm y gwariant ar ynni[2] | 398,823 | 450,319 | 464,535 | 464,414 |

## Teithio swyddogol [3,7]

| | | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)** | Teithio ar fusnes | 471,800 | 811,842 | 858,809 | 884,357 |
| | Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 33,454 | 36,434 | 25,707 | 31,949 |
| **Dangosyddion ariannol (£) (tCO2e)** | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 164,537 | 265,217 | 266,576 | 349,775 |

## Gwastraff[4]

| | | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)** | Cyfanswm y gwastraff | 133.48 | 152.88 | 120.4 | 119.6 |
| | Wedi'i ailgylchu/wedi'i ailddefnyddio | 90.92 | 113.54 | 102.92 | 113 |
| | Tirlenwi | 42.6 | 39.1 | 17.2 | 6.4 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 8.6 | 14.2 | 11.3 | 5.5 |
| | Gwastraff peryglus | 0.10 | 0.05 | 0.29 | 0.5 |
| | Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalennau) | 4.24 | 2.17 | 2.77 | 2.7 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar waredu gwastraff | 15,511 | 26,689 | 24,000 | 26,564 |

## Y defnydd o ddŵr[5]

| | | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)** | Y Defnydd o ddŵr | | | | |
| | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 7,446 | 7,669 | 9,449 | 7,315 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 737 | 747 | 2,407 | 1,301 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar y gyflenwad a charthffosiaeth | 20,781 | 22,777 | 24,246 | 23,370 |

### Troednodiadau

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14. Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig; maent yn cynnwys swyddfa Bae Colwyn, pan fo'r data ar gael.

Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad.

Caiff yr holl ddata ynghylch gweithrediadau eu trosi yn dunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol (tCO2e) at ddibenion adrodd. Mae CO2e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

1. Caiff amcangyfrifon o'r costau a'r defnydd o nwy a thrydan yn swyddfa Bae Colwyn eu cynnwys; maent wedi'u seilio ar filiau a lunnir drwy fesurydd, sydd wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng yr holl denantiaid.
2. Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.
3. Mae'n cynnwys teithiau gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad o 2013/14 ymlaen a theithiau a brynwyd drwy'r cerdyn credyd corfforaethol.
4. Mae'r ffigurau ynghylch cyfanswm y gwastraff yn 2009/10 yn dangos chwe mis yn unig o ddata oedd ar gael. Mae'r data ynghylch gwastraff yn berthnasol i ystâd Bae Caerdydd yn unig.
5. Mae'r data ynghylch dŵr a gwastraff yn berthnasol i ystâd Bae Caerdydd yn unig.
6. Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.
7. Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.



Tudalen y pecyn 50

## Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod

Cyfarfu'r Comisiynwyr ym mis Ebrill 2014 i drafod cynnydd yn erbyn nodau strategol a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ers 2011. Trafodwyd hefyd eu barn ar beth arall sydd angen ei wneud cyn yr etholiad yn 2016, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yn gadael etifeddiaeth gref, glir. Mae'r adolygiad hwn wedi arwain at gynllun strategol diwygiedig ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn, gyda phum blaenoriaeth:

– Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy'r camau nesaf yn ein strategaeth TGCh;

– Gwasanaethau dwyieithog ehangach;

– Ymgysylltu'n well â phobl yng Nghymru;

– Gwneud y gorau o'n hystâd;

– Bod yn gwbl barod ar gyfer y Pumed Cynulliad, a'r heriau newydd a ddaw yn sgîl hynny.

Yn nwy flynedd olaf y Cynulliad hwn, bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau cryf, costeffeithiol, ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o fewn cyllideb dynnach, a thrwy wneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym eisoes.

Bydd ymgysylltu a dealltwriaeth o'r Cynulliad a'i rôl ym mywyd Cymru yn ffocws pwysig inni, drwy fentrau fel ymgyrchoedd Ymgysylltu â phobl ifanc ac ymgyrchoedd y Llywydd, ond yn fwy arbennig drwy ymgysylltu yn lleol, gan fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi. Byddwn yn parhau i wella gwasanaethau dwyieithog, gan lunio ein hadroddiad cydymffurfio cyntaf ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ym mis Gorffennaf.

Bydd y gwaith yn dechrau o ddifrif eleni i baratoi ar gyfer y newid i'r Pumed Cynulliad. Byddwn yn dechrau drwy adolygu'r paratoadau a threfniadau ar gyfer y newid i'r Pedwerydd Cynulliad ac yn defnyddio hyn i ddiffinio cwmpas ar gyfer trosglwyddo i'r Pumed. Rydym yn anelu at fod yn hollol barod, ymhell o flaen llaw, ac yn barod i gefnogi'r Aelodau a'u staff trwy'r broses hon.

Byddwn yn parhau i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol i newidiadau cyfansoddiadol - gan sicrhau bod gan y Cynulliad yr arbenigedd a'r gallu i ymdrin â phwerau a chyfrifoldebau sy'n newid.

Yn olaf, er mwyn helpu i gyflawni'r nodau strategol hyn ac i gyflawni ein rhaglen uchelgeisiol o newid mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd, rydym wedi sefydlu Rhaglen Trawsnewid Strategol er mwyn ein galluogi i gynllunio a blaenoriaethu ein gwaith ac i'w gyflawni yn gyflym, tra'n ystyried ein blaenoriaethau busnes o ddydd i ddydd a phrosiectau allweddol eraill.

Mae ail ran yr adroddiad hwn yn cyflwyno ein perfformiad ariannol a chyfrifon, wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon Trysorlys Ei Mawrhydi ac wedi'u harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

# Datganiad o gyfrifon

# Y Comisiwn - ei gefndir statudol a'r prif weithgareddau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd, ac un ohonynt yw'r Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad.

| **Y Comisiynwyr yn ystod 2013-14 oedd:** | **Cyfnod y penodiad** |
|---|---|
| **Rosemary Butler AC**<br>Y Llywydd o fis Mai 2011 | Etholwyd ar 11 Mai 2011 |
| *Bu Rosemary Butler yn bresennol mewn 16 allan o 17 cyfarfod o'r Comisiwn.* | |
| **Peter Black AC** | Ailbenodwyd ar 25 Mai 2011 |
| *Bu Peter Black yn bresennol mewn 16 allan o 17 cyfarfod o'r Comisiwn.* | |
| **Angela Burns AC** | Penodwyd ar 25 Mai 2011 |
| *Bu Angela Burns yn bresennol mewn 16 allan o 17 cyfarfod o'r Comisiwn a 3 allan o 5 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg* | |
| **Rhodri Glyn Thomas AC** | Penodwyd ar 25 Mai 2011 |
| *Bu Rhodri Glyn Thomas yn bresennol mewn 15 allan o 17 cyfarfod o'r Comisiwn.* | |
| **Sandy Mewies AC** | Penodwyd ar 25 Mai 2011 |
| *Bu Sandy Mewies yn bresennol ym mhob un o'r 17 cyfarfod o'r Comisiwn.* | |

Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldebau eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad sy'n eu hatal rhag mynychu cyfarfod y Comisiwn o bryd i'w gilydd.

Mae gan y Comisiwn drefniadau portffolio sy'n golygu bod gan y Comisiynwyr gyfrifoldeb dros faterion penodol. Caiff y rhain eu hegluro'n llawn yn yr Adroddiad Blynyddol.

Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Cyfeirir at ei staff, a benodir o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, fel staff y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru ("Gweinidogion Cymru").

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno i ymgymryd â'i rwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad a'i bwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

# Cyd-destun strategol a'r adroddiad

Gan adeiladu ar waith y tri Chynulliad blaenorol, mae'r strategaeth y cytunodd y Comisiynwyr arni ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad 2011–2016 yn pennu'r amcanion canlynol:

– Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru;


– Defnyddio adnoddau'n ddoeth.

I gefnogi amcanion y Comisiwn, cafodd **cynllun cyflawni** ei lunio yn nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddiad, ynghyd â strategaeth fuddsoddi er mwyn darparu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni ar gyfer y Cynulliad, heb gyfaddawdu gwerthoedd ac ansawdd sy'n bwysig i'r Aelodau. Mae'r Comisiwn yn sicrhau bod digon o adnoddau ariannol ar gael drwy broses gadarn ei Gyllideb Flynyddol sy'n cyflwyno cyllideb derfynol i Aelodau'r Cynulliad bob hydref yn dilyn gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Yn erbyn cefndir parhaus o gyfyngu ar wariant yn y sector cyhoeddus, cyflwynodd strategaeth fuddsoddi'r Comisiwn gyllideb tair blynedd i sicrhau gostyngiadau termau real mewn gwariant, wedi'u cydbwyso â'r angen i ddarparu digon o adnoddau i sicrhau cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf. Hon yw blwyddyn ganol y rhaglen fuddsoddi, ac mae cyllideb y Comisiwn yn parhau i gynrychioli 0.3% o Floc Cymru a llwyddwyd i ddarparu'r safon ofynnol o ran cefnogaeth seneddol gyda'r un faint o arian mewn termau real ag a ddyrannwyd i'r Comisiwn dair blynedd yn gynharach[1].

Yn benodol ar gyfer 2013-14, cymeradwywyd y Gyllideb yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd 2012. Nododd y tair ffrwd ariannu ar wahân y mae'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn atebol amdanynt. Un ffrwd ariannu yw gwariant sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, un arall yw'r gwariant a bennir gan y Bwrdd Taliadau, a'r llall yw'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan bennawd y Gwariant a Reolir yn Flynyddol gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Prif Swyddog Cyfrifyddu – meysydd gwariant atebol**




[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD9090, Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013-14, 7 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Mai 2014], Atodiad 1 tudalen 20.

Cafodd adnoddau o'r gyllideb hon o £49.450 miliwn eu targedu ar gyfer darparu gwasanaethau a'r pum maes blaenoriaeth canlynol ar gyfer newid o'r Cynllun Cyflawni:

– Strategaeth TGCh y Dyfodol, ar gyfer 2014 a thu hwnt;

– Rhagoriaeth ac integreiddio gwasanaethau i gefnogi busnes y Cynulliad drwy ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Busnes a chreu'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol i newid rhaglenni;

– Gwasanaethau dwyieithog gwell gyda lansiad meddalwedd Cyfieithu Peirianyddol Microsoft a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol;

– Ymgysylltu pobl Cymru fwy â gwaith y Cynulliad, gan gynnwys adolygiad o ymgysylltu â phobl ifanc a chynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol;

– Manteisio i'r eithaf ar ein hystâd fel y prif leoliad ar gyfer bywyd cyhoeddus Cymru.

Cyfarfu'r Comisiwn ym mis Ebrill 2014 i drafod **cynnydd yn erbyn nodau strategol** a blaenoriaethau ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi. Trafodwyd beth arall sydd angen ei wneud cyn yr etholiad yn 2016 i sicrhau bod y Comisiwn yn gadael etifeddiaeth gref, glir ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu ar ddarparu gwasanaethau trwy wneud y defnydd gorau o TGCh fel strategaeth galluogi a chwblhau cynlluniau yn barod ar gyfer y newid i, a heriau newydd, y Pumed Cynulliad. Yn dilyn yr adroddiad ynghylch pennu, gweithredu a chynnydd yn erbyn **dangosyddion perfformiad allweddol**, bydd y Comisiwn yn alinio'r dangosyddion gyda chynllun strategol diwygiedig y Comisiwn, ac yn asesu meysydd lle y gallai'r targedau fod yn fwy ymestynnol.

## Adolygiad o berfformiad y flwyddyn ariannol


Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Comisiwn dri diweddariad ar ei gynnydd o ran perfformiad corfforaethol fel y cafodd eu monitro drwy'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae adroddiad y flwyddyn lawn yn tynnu sylw at gynnydd penodol yn erbyn y nodau strategol a oedd wedi gwella'n arbennig neu lefelau perfformiad gwasanaeth a oedd wedi'u cynnal o ran y Cyfarfod Llawn neu gyfarfodydd pwyllgorau; cynnydd yn nifer yr ymwelwyr; nifer uwch o ddigwyddiadau rhyngwladol; cynnydd yn nifer y digwyddiadau a drefnir ar yr ystâd; ffyrdd newydd o weithio drwy gyfieithu peirianyddol a sianeli cyfryngau cymdeithasol; yn ogystal â gwella gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc.

Mae'r targedau ar gyfer Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth yn parhau i ddangos gwelliant parhaus. Cyfanswm net yr alldro adnoddau ar gyfer 2013-14 oedd £49.8 miliwn (£47.1 miliwn yn 2012-13) o'i gymharu â chyllideb o £49.9 miliwn (£47.4 miliwn ar gyfer 2012-13). Cyflawnodd y Comisiwn ei darged perfformiad corfforaethol ar gyfer 2013-14 gyda sefyllfa tanwariant llai nag 1% o'r gyllideb. Yn benodol, sefyllfa alldro adnoddau'r Comisiwn oedd tanwariant o ddim ond £0.034 miliwn neu 0.07%.

Yn ystod y flwyddyn, gosododd y Comisiwn **Femorandwm Esboniadol** i gefnogi newidiadau i Gyllideb 2013-14 y Comisiwn drwy Gynnig y Gyllideb Atodol. Esboniodd y Memorandwm hwn yr angen am ostyngiad i Gyllideb Adnoddau'r Comisiwn o £0.700 miliwn a chynnydd i'r Gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £0.700 miliwn. Cyd-ddigwyddiad yw bod y ffigurau yr un gwerth, ac nid ydynt yn gysylltiedig. Talwyd rhywfaint o'r Gyllideb Adnoddau yn ôl o ganlyniad i ad-daliad ystâd ôl-ddyddiedig annisgwyl a sylweddol. Gan na all y Comisiwn gario unrhyw danwariant ymlaen i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol, roedd o'r farn y byddai'n briodol, ac yn oruchwyliaeth effeithiol, rhoi'r cyllid sydd ar gael i floc Cymru drwy gynnig y gyllideb atodol. Defnyddir y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Roedd ganddi amcangyfrif pensiwn actiwaraidd a oedd yn rhagweld gofyniad cyllideb o £0.700 miliwn yn uwch na'r Gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2012.

Cost cyflogau staff sy’n cael eu cyflogi gan y Comisiwn, a'r costau cysylltiedig, oedd £15.8 miliwn (£14.7 miliwn yn 2012-13); cyfanswm y costau llety, TGCh a’r costau rhedeg eraill oedd £18.2 miliwn (£17.8 miliwn yn 2012-13) gan gynnwys incwm o £0.28 miliwn (£0.2 miliwn yn 2012-13) am rentu, derbyniadau am barcio ceir a gwerthiant nwyddau o Siop y Cynulliad. O incwm 2013-14, cafodd £0.03 miliwn yn fwy na chwmpas y gyllideb ei ildio i'r Trysorlys (dim yn 2012-13).

**Costau uniongyrchol y Comisiwn**




Mae manylion gwariant ac amrywiannau gwirioneddol o gymharu â chynlluniau ar gyfer y gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i'w gweld yn nodyn SOS.02.

Mae'r Bwrdd Taliadau annibynnol yn gwneud penderfyniadau ar bob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau’r Cynulliad, gan ystyried newidiadau yng nghyfrifoldebau gwaith Aelodau’r Cynulliad ac adolygu effeithiolrwydd ac effaith y system cymorth ariannol yn ei chyfanrwydd. O nawr hyd cyhoeddi'r Penderfyniad yn ymwneud â'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2015, mae'r Bwrdd Taliadau yn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ar bob agwedd ar eu tâl, gan gynnwys dylunio cynllun pensiwn modern sy'n cyd-fynd ag arfer gorau.

Yn 2013-14, costau cyflogau a lwfansau Aelodau’r Cynulliad, a oedd yn cynnwys lwfansau ar gyfer penodi staff a chael llety yn yr etholaeth/ardal i’w helpu i gyflawni’u dyletswyddau, oedd £13.3 miliwn (£12.9 miliwn yn 2012-13).


Nid yw’r ffigurau uchod yn cynnwys costau’n ymwneud â chyflog y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Y Comisiwn sy’n talu’r cyflogau hyn ond cânt eu talu’n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn ôl statud. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn alldro adnoddau net y Comisiwn. Cyfanswm y costau hyn yn 2013-14 oedd £0.6 miliwn (£0.6 miliwn yn 2012-13).

Caiff gwariant y Comisiwn ei ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Ar 31 Mawrth 2014, £63.8 miliwn oedd cyfanswm asedau net y Comisiwn (£60.0 miliwn ar 31 Mawrth 2013).

## Gwerth am arian

Cafodd y targed perfformiad allweddol Gwerth am Arian ei bennu ar £500,000, sy'n uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol (£300,000 yn 2012-13). Gwnaed hyn er mwyn annog y cysyniad o Werth am Arian ymhellach fel egwyddor sylfaenol ar gyfer holl wariant y Comisiwn. Yn ogystal, mae cyflawni arbedion yn erbyn y targed bellach yn rhan annatod o'r adroddiad cyllid misol sy'n mynd i'r Bwrdd Rheoli.

Yn ystod y flwyddyn, sicrhawyd arbedion o £508,000, cyflawnwyd y mwyafrif ohonynt drwy reoli swyddi gwag (£395,000, 78%). Cyflawnwyd y gweddill (£113,000, 22%) drwy gaffael a dyfarnu contractau a oedd yn darparu yr un fath neu lefel uwch o wasanaeth am lai o gost. Mae penodi Pennaeth Caffael parhaol yn golygu ein bod yn gweld lefel uwch o arbedion nad ydynt yn ymwneud â staffio yn cael eu cyflawni a'u cadw. Mae hyn yn newid mawr o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bydd rhai o'r penderfyniadau caffael a wnaed yn 2013-14 yn parhau i sicrhau arbedion yn erbyn y costau gwaelodlin mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Er enghraifft, cafodd y contract ar gyfer dyfeisiau symudol ei negodi'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gan sicrhau arbediad o £43,000 yn 2013-14 a bydd yn cyflawni yr un fath yn 2014-15. Dangosir effaith penderfyniadau 2013-14 ar y dyfodol isod.




Manteisiodd y Comisiwn hefyd ar arbedion sylweddol yn 2013-14 pan aseswyd yr ystâd gan y Swyddog Prisio. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn ardrethi'r Comisiwn o 2010-11. Bydd y newid hwn yn arbed cyfanswm o £1.25 miliwn i'r Comisiwn, a derbyniwyd £682,000 o'r swm hwn yn 2013-14 (wedi'i ôl-ddyddio i 2010-11) a derbynnir y gweddill dros y 3 blynedd ariannol nesaf drwy ostyngiad mewn costau.

Roedd dau newid allweddol i'r strwythur staffio, gyda llenwi holl swyddi'r tîm Dadansoddi Busnes a sefydlu'r Uned Trawsnewid Strategol. Mae'r Dadansoddwyr Busnes bellach yn gweithio gyda phenaethiaid gwasanaethau, timau prosiect a staff gwasanaethau yn ehangach i helpu i wella prosesau, llywio newid a chynyddu effeithlonrwydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol. Yr Uned Trawsnewid Strategol sy'n rhoi'r arweiniad corfforaethol ar gyfer newid a gweithredu ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

Bydd targed arbedion y Comisiwn ar gyfer 2014-15 yn aros ar £500,000 gyda'r holl arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r Comisiwn. Y prif fentrau ar gyfer hwyluso'r gwaith o gyflawni arbedion mewn blynyddoedd i ddod yw:

– Rheoli Contractau - parhau i ddefnyddio caffael i leihau costau contractau tra'n sicrhau gwerth gorau am arian.

– Rheoli Swyddi Gwag - adolygiad rheolaidd o swyddi gwag a phenderfyniadau recriwtio yn seiliedig ar gysondeb â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn.

– Adolygiad o'r gyllideb - gyda rheolwyr cyllideb i nodi meysydd o fewn eu cyllidebau dirprwyedig y gellir eu targedu i leihau costau heb effeithio ar ansawdd y gwasanaeth.

O ran cyflawni ar gyfer 2013-14, mae'r canlynol yn enghreifftiau yn erbyn y themâu allweddol

| Thema gwerth am arian | Menter | Effaith | Y flwyddyn ariannol berthnasol |
|---|---|---|---|
| **Gwella gwybodaeth reoli a symleiddio prosesau** | Mae ail-ddylunio adroddiadau cyllideb ariannol gan gyflwyno gwybodaeth cyllideb yn amserol i reolwyr wedi sicrhau arbediad o 12.5% o ran amser staff. | Mae'r amser a gymerir i gynhyrchu'r wybodaeth hon wedi gostwng hanner diwrnod, gan alluogi'r adroddiadau i gael eu cyflwyno ar ddiwrnod gwaith cyntaf pob mis. | O 2013-14 ymlaen |
| **Symleiddio prosesau** | Llwyddodd yr adran TGCh i leihau nifer y gweinyddion sy'n ofynnol drwy gynnal adolygiad o'r offer. | Arweiniodd hyn at wasanaeth cymorth symlach gan leihau nifer y gweinyddion a'r dyfeisiau rhwydwaith y telir amdanynt | O 2013-14 ymlaen |
| **Gwneud y gorau o fanteision gwaith rheoli contractau** | Negodi contract Trwyddedau Cymorth Meddalwedd TGCh yn llwyddiannus. | Bydd hyn yn creu arbedion o £175,000 dros bedair blynedd | O 2013-14 ymlaen |
| | Mae gwahanu oddi wrth gontract TGCh Llywodraeth Cymru a dod â'r gwasanaethau'n fewnol wedi gostwng y costau. | Bydd hyn yn rhyddhau £436,000 yn 2014-15 i'w fuddsoddi mewn darparu swyddogaeth TGCh o ansawdd uchel. | O 2014-15 ymlaen |

Wrth inni symud i mewn i flwyddyn ariannol newydd, bydd y gwasanaethau yn craffu ar eu hadnoddau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn gwenud y defnydd gorau ohonynt. Mae un gwasanaeth eisoes wedi defnyddio swydd wag i dreialu ffordd wahanol o ddarparu gwasanaethau, gan anelu i gael gwared ar gostau cyfieithu allanol o un rhan o'r busnes.

## Materion amgylcheddol

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gall ei weithgarwch effeithio ar yr amgylchedd mewn modd cadarnhaol a negyddol yng Nghymru a thu hwnt. Gyda 90% o gyfanswm yr allyriadau yn cael ei briodoli i'r defnydd o drydan a nwy, mae lleihau'r defnydd o ynni yn parhau i fod yn gonglfaen i'n strategaeth gynaliadwyedd. Yn 2008-09 pennodd y Comisiwn darged penodol i gyflawni 40% o ostyngiad mewn allyriadau ynni erbyn 2015. Mae'r Comisiwn yn falch o adrodd gostyngiad cronnol o 34% mewn allyriadau ynni ar gyfer y targed perfformiad allweddol hwn. Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyflawni gostyngiad cyffredinol o 13.4% mewn allyriadau teithio ar fusnes o'i gymharu â'i darged o 15% erbyn 2015. Mae rhagor o wybodaeth am ein cyflawniadau amgylcheddol yn yr Adroddiad Blynyddol.

## Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn wedi penodi cynghorwyr i ddarparu her annibynnol, adeiladol i Gomisiwn y Cynulliad drwy fynd i gyfarfodydd y Comisiwn (*), aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio(#) ac aelodaeth y Pwyllgor Taliadau yn ogystal â darparu mewnbwn i feysydd eraill o waith y Comisiwn.

**Mair Barnes***
(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2016)

*Bu Mair Barnes yn bresennol yn 11 o gyfarfodydd y Comisiwn*

**Richard Calvert#**
(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2013)

*Bu Richard Calvert yn bresennol mewn 3 allan o 3 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd*

**Eric Gregory#**
(Tachwedd 2012 – Hydref 2015)

*Bu Eric Gregory yn bresennol mewn 5 allan o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd ac 1 allan o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau*

**Helena Feltham**
(Tachwedd 2012- Hydref 2015)

*Bu Helena Feltham yn bresennol mewn 3 o gyfarfodydd y Comisiwn*

**Hugh Widdis#**

(Tachwedd 2013-Hydref 2016)

*Bu Hugh Widdis yn bresennol mewn 3 allan o 3 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd*

**Keith Baldwin#**
(Tachwedd 2012 – Hydref 2015)

*Bu Keith Baldwin yn bresennol mewn 5 allan o 5 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd ac 1 allan o 1 cyfarfod y Pwyllgor Taliadau*

## Uwch-reolwyr a staff y Cynulliad

Dyma'r uwch-reolwyr (y Prif Weithredwr a'i Chyfarwyddwyr) a gyflogwyd gan y Comisiwn drwy gydol y flwyddyn ariannol:

| | |
|---|---|
| **Claire Clancy** | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad,<br>Y Prif Swyddog Cyfrifyddu |
| **Adrian Crompton** | Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |
| **Dave Tosh** | Cyfarwyddwr TGCh |
| **Elisabeth Jones** | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Steven O'Donoghue** | Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad gyda chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Cyllid tan 25 Ebrill 2014 |

Mae'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogau a hawliau pensiwn yr unigolion a enwir a'r costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd ganddynt am y flwyddyn.   Caiff yr uwch-reolwyr eu penodi i'w swyddi'n barhaol.

## Nifer y staff

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dyma nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn:

| | **31 Mawrth 2014** | **31 Mawrth 2013** |
|---|---|---|
| **Staff a gyflogwyd** | 388.88 | 357.3 |
| **Staff ar secondiad** | 1.0 | 1.0 |

| | **Benywaidd** | **Gwrywaidd** |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr** | 2 | 3 |
| **Staff** | 211 | 191 |
| **Cyfanswm** | 213 | 194 |

## Buddsoddwyr mewn Pobl - Cysylltiadau gweithwyr a chyfathrebu

Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio'r Safon Buddsoddwyr mewn Pobl fel fframwaith arfer gorau i feincnodi ein harferion a'n polisïau yn ymwneud â phobl.    Ym mis Mehefin 2013, bu'r aseswyr Buddsoddwyr mewn Pobl ar ymweliad â'r Comisiwn ac am yr ail dro, enillwyd statws Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl.  Cyflawnwyd y wobr Aur yn gyntaf yn 2010 ac rydym yn falch o gael cadarnhau'r safon uchel hon eto.

Cynhaliwyd trydydd arolwg staff yn ystod haf 2013. Dangosydd cadarnhaol oedd nifer y staff a gwblhaodd arolwg 2013.  Ymatebodd cyfanswm o 284 (77%) o staff i'r arolwg staff hwn o gymharu â 188 (51.9%) ym mis Gorffennaf 2012, sy'n gynnydd boddhaol iawn. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar y cwestiynau craidd a ofynnwyd yn yr arolwg blaenorol sy'n ein galluogi i feincnodi, gwneud

cymariaethau a 'gwirio tymheredd' diwylliant y sefydliad. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â materion a godwyd er mwyn cefnogi'r gwaith o gynyddu ymgysylltiad, morâl a chymhelliant y staff.

Mae'r berthynas dda gyda'r Undebau Llafur yn parhau. Yn ystod y flwyddyn cafwyd cytundeb cyflog sy'n cwmpasu'r cyfnod o fis Hydref 2013 i fis Medi 2016.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad arweiniol o ran ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu hawliau dynol yn ein gwaith fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd.

Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddwyd ein **Cynllun Cydraddoldeb**, sy'n amlinellu ein gweledigaeth a'n strategaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Un o'r llwyddiannau wrth gyflwyno ein cynllun fydd cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gynllun Cydraddoldeb 2010. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb yn ategu'r gwaith hwn o hyrwyddo cydraddoldeb, gwerth, amrywiaeth a chanfod a dileu rhwystrau cydraddoldeb posibl o ran ein staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn cynnwys:

- Cawsom ein henwi yn rhestr *The Times* o'r 50 o gyflogwyr gorau ar gyfer menywod yn y DU. Mae'r Cynulliad wedi'i gydnabod yn benodol am y ffordd y mae'n darparu amrywiaeth o opsiynau gweithio hyblyg ac mae'n darparu cefnogaeth ragorol i fenywod sydd â chyfrifoldebau rhiant neu ofal.
- Cyrhaeddodd y Cynulliad rif 11 ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, sy'n rhestru 100 cyflogwr gorau'r DU ar gyfer 2014, a chafodd ei enwi fel y Cyflogwr Gorau yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru hefyd. Mae'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, yn edrych ar amrywiaeth o nodau er mwyn mesur sut mae sefydliadau'n cefnogi staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- Mae Comisiwn y Cynulliad wedi buddsoddi mewn swydd newydd tymor penodol i gydgysylltu Cynllun Gweithredu gwella Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'i roi ar waith, i gefnogi staff presennol sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac i gynyddu eu cynrychiolaeth yng ngweithlu'r Cynulliad.
- Mae gwelliannau i ystâd y Cynulliad wedi gwella hygyrchedd, er enghraifft, drwy ddarparu arwyddion allanol ar gyfer y Senedd a derbynfa hygyrch yn Nhŷ Hywel.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael ar ein gwefan lle y cyhoeddir Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-14 ym mis Gorffennaf 2014.

## Dysgu a datblygu

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn parhau i ddarparu ystod eang o atebion dysgu i'r holl staff i'w galluogi i gyflawni eu nodau personol a nodau'r tîm. Yn 2013-14 bu 74 o secondiadau a dechreuodd chwe phrentis o fewn y Comisiwn, gan gynnwys un yn swyddfa'r gogledd.

Yn dilyn adborth yn yr Arolwg Staff diwethaf, gweithiodd y tîm yn galed i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd datblygu niferus sydd ar gael. Mae gan bob maes gwasanaeth "Gyfaill Dysgu" sy'n cydweithio'n agos â thimau a Phenaethiaid Gwasanaethau i sicrhau bod anghenion pob maes gwasanaeth yn cael eu bodloni. Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi cefnogi newidiadau i strwythur y sefydliad, gan drefnu a hwyluso digwyddiadau hyfforddi tîm a'u helpu i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i weithio'n effeithiol a chyflawni eu hamcanion.

Bu rhagor o bwyslais ar Ddatblygu Rheolwyr drwy gyflwyno Rhaglen newydd 26 Cham i Reoli Llinell a chymwysterau Rheolaeth ac Arweinyddiaeth achrededig ar gyfer staff. Rydym hefyd wedi datblygu

rhaglen newydd Cymorth Cyfweliad a Gwneud Cais i sicrhau bod gan unigolion y sgiliau i wneud cais am gyfleoedd o fewn y Cynulliad.

## Iechyd a Diogelwch

Mae'r maes Iechyd a Diogelwch yn cynnwys yr elfennau ymarferol o sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, contractwyr ac ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd a Bae Colwyn. Mae hyn yn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n statudol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Yn 2013, cynyddodd y pwyslais a roddir ar lesiant, yn sgîl lansio'r Strategaeth Iechyd a Lles.  Ffocws y strategaeth yw hyrwyddo ac annog ymgysylltiad ar draws y Cynulliad a bydd yn cael ei gyflwyno trwy raglenni rhagweithiol fel rheoli effeithiol, rheoli straen a'r ymgyrch 'Cefn Iach'.

## Data absenoldeb salwch

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 5.48 diwrnod gwaith cyfartalog fesul person, sef 2.49% (6.16 diwrnod gwaith, 2.80% yn 2012-13) o'i gymharu â'r targed am y flwyddyn o saith diwrnod gwaith y person.

**Rhwymedigaethau Pensiwn**
Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

**Trafferthion yn ymwneud â data personol**
Nid oedd unrhyw achosion o drafferthion yn ymwneud â data personol na cholli data personol yn 2013-14 lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Roedd pedwar achlysur pan gynhaliwyd ymchwiliadau llawn i achosion o dorri cyfrinachedd o ran data personol a rheolwyd hyn yn fewnol yn unol â pholisi'r Comisiwn ond nid oedd angen mynd â hyn ymhellach.

## Polisi talu credydwyr

Ers 2009, targed y Comisiwn yw talu pob credydwr (cyflenwyr, Aelodau a chyflogeion) cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl i'r anfonebau ddod i law, os nad oedd anghydfod yn eu cylch.    Ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn, talwyd 98.8% cyn pen 10 niwrnod (98.3% ar gyfartaledd yn 2012-13.

**Archwilio'r Cyfrifon**
Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag Adran 137 o Ddeddf 2006.  Y gost y cytunwyd arni ar gyfer archwilio cyfrifon 2013-14 yw £62,540 (£60,250 yn 2012-13).

**Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol**
Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

**Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn**
Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a'r dyddiad y cwblhawyd y cyfrifon hyn.

## Cyfarwyddyd ynghylch cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalenau 91-113 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy.

Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol. Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad: **www.cynulliadcymru.org** a **www.assemblywales.org**.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**
**Dyddiad:** 09 Gorffennaf 2014

# Adroddiad a'r polisi taliadau

## Bwrdd Taliadau

Mae'r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, yn gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Penodir i'r Bwrdd am dymor o bum mlynedd. Mae pedwar aelod o'r Bwrdd, sef Sandy Blair CBE, Mary Carter, Stuart Castledine, a'r Athro Monojit Chatterji, yn cael £185 y diwrnod. Yn ystod y flwyddyn, camodd y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid i lawr fel Cadeirydd y Bwrdd o 30 Medi 2013, a chymerodd Sandy Blair CBE yn y swydd o 1 Hydref 2013. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cael £243 y diwrnod.

Cyhoeddwyd adroddiad y Bwrdd, **Addas i'r Diben,** ym mis Mawrth 2011, a ddaeth i'r casgliad y dylai'r cyflog o £53,852 a bennwyd ar gyfer 2010-11 barhau am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Cadarnhawyd y lefel hon o gyflog yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau blynyddol. Cyhoeddwyd y diweddaraf ym mis Gorffennaf 2012. Penderfynodd pedwar Aelod beidio â chymryd eu tâl llawn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2013-14 a 2012-13. Roedd hawl gan yr Aelodau canlynol i gyflogau blynyddol ychwanegol:

| | O:<br>1 Ebrill 2013 | O:<br>1 Ebrill 2012 |
|---|---|---|
| **Y Llywydd** | £41,949 | **£41,949** |
| **Y Dirprwy Lywydd** | £26,385 | **£26,385** |
| **Comisiynwyr y Cynulliad** | £12,420 | **£12,420** |
| **Cadeiryddion y pwyllgorau**[2] | £12,420 | **£12,420** |
| **Cadeiryddion pwyllgorau eraill**[3] | **£8,280** | **£8,280** |

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

O fis Ebrill 2011, mae Arweinydd y grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £12,420 a £1,000 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £41,949. O ganlyniad, amrediad lwfans deiliaid swyddi yw £17,420 - £26,420.

Dechreuodd swydd newydd Rheolwyr Busnes ar gyfer grwpiau gwleidyddol o fis Ebrill 2011. Mae Rheolwyr Busnes yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £6,210 a £250 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £12,420. O ganlyniad, amrediad lwfans deiliaid swyddi yw £7,460 - £12,420.

O'r aelodau oedd â hawl i gyflogau ychwanegol yn 2013-14, ni wnaeth 16 ohonynt hawlio'r cyfanswm yr oedd ganddynt hawl iddo ar gyfer y flwyddyn lawn (yn 2012-13 hefyd, ni wnaeth 16 Aelod hawlio'r cyfanswm am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau.

---

[2] Y Pwyllgorau oedd: Plant a Phobl Ifanc; Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Cyllid; Cyfrifon Cyhoeddus.
[3] Y Pwyllgorau eraill oedd: Deisebau; Safonau Ymddygiad

Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad **www.cynulliadcymru.org**.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er mwyn effeithlonrwydd gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth y datgeliad.

## Comisiwn a Chynghorwyr Annibynnol

Wrth i Richard Calvert gamu i lawr a phenodi Hugh Widdis ym mis Tachwedd 2013 dychwelodd nifer y cynghorwyr annibynnol i bump. Mae'r cynghorwyr yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn (£7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau sy'n cynnwys hyd at bedwar aelod annibynnol, sy'n cynorthwyo'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ein polisïau a'n systemau arfarnu a thalu.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 oedd:

- Tony Morgan - Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (tan 31 Mawrth 2014). Cafodd dâl amhensiynadwy o £1,250 y flwyddyn.
- Helena Feltham - Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (o Ebrill 2014) a Chynghorwr Annibynnol.
- Keith Baldwin, Cynghorwr Annibynnol
- Eric Gregory, Cynghorwr Annibynnol

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor unwaith ar 17 Ebrill, 2013, ac roedd yr holl aelodau ar hyn o bryd yn bresennol.

## Contractau gwasanaeth

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Maent hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan y gellir gwneud penodiadau fel arall. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Oni nodir yn wahanol isod, mae staff y Cynulliad y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Cyflogau a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau a phensiynau deiliaid swyddi ac uwch-swyddogion. Cânt eu cyflwyno yn ôl bandiau cyflog a phensiwn.

Mae gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl i gyflog blynyddol o £12,420 yn ychwanegol at eu cyflog fel Aelodau'r Cynulliad. Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Nid oes modd gwahanu'u pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr oddi wrth y cyfanswm a gronnwyd.

| Enw a theitl | Cyflog 2013-14<br>£'000 | Cyflog 2012-13<br>£'000 | Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig pan fyddant yn 65 oed<br>£'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig pan fyddant yn 65 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31/3/14<br>£'000 | CETV ar 31/3/14<br>£'000 | CETV wedi'i ailddatgan ar 31/3/13<br>£'000 | Gwir gynnydd mewn CETV wedi'i ailddatgan<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deiliaid swyddi** | | | | | | | |
| **Rosemary Butler AC – Y Llywydd** | 95-100 | 95-100 | 1.5-2.0 | 25-30 | 428 | 402 | 18 |
| **David Melding AC –Y Dirprwy Lywydd (dechreuodd ar 12/5/2011)** | 80-85 | 80-85 | 1-1.5 | 20-25 | 278 | 245 | 11 |

**Uwch-reolwyr**

| Enw a theitl | Cyflog 2013-14 £'000 | Cyflog 2012-13 £'000 | Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig pan fyddant yn 60 oed £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig pan fyddant yn 60 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31/3/13 £'000 | CETV ar 31/3/14 £'000 | CETV ar 31/3/13 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad*** | | | | | | | |
| Claire Clancy | 140-145 | 140-145 | 0.0-0.5 a chyfandaliad o .05-1.0 | 60-65 a chyfandaliad o 190-195 | 1,305 | 1,228 | -3 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad*** | | | | | | | |
| Adrian Crompton | 115-120 | 110-115 | 2.0-2.5 a chyfandaliad o 5-10 | 35-40 a chyfandaliad o 110-115 | 601 | 536 | 27 |
| ***Cyfarwyddwr TGCh*** | | | | | | | |
| Dave Tosh | 85-90 | 80-85 | 3.0-3.5 | 35-40 | 299 | 254 | 32 |
| ***Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol*** | | | | | | | |
| Elisabeth Jones | 90-95 | 45-50 | 5.0-5.5 | 20-24 | 475 | 369 | 68 |
| ***Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a enwebwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid*** | | | | | | | |
| Steven O'Donoghue | 70-75 | 65-70 | 1.0-1.5 | 25-30 | 328 | 299 | 7 |

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

Cyfanswm ffigur sengl y taliadau (i'r £1,000 agosaf))

| **Swyddogion** | **Cyflog** | | **Buddiannau Pensiwn** [1] | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 |
| **Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad** | 140,000-145,000 | 140,000-145,000 | 64,000 | 62,000 | 205,000-210,000 | 205,000-210,000 |
| **Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad** | 115,000-120,000 | 110,000-115,000 | 37,000 | 34,000 | 150,000-155,000 | 145,000-150,000 |
| **Cyfarwyddwr TGCh** | 85,000-90,000 | 85,000-90,000 | 24,000 | 21,000 | 110,000-115,000 | 105,000-110,000 |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol** | 90,000-95,000 | 90,000-95,000 | 28,000 | 23,000 | 120,000-125,000 | 115,000-120,000 |
| **Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a enwebwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | 70,000-75,000 | 65,000-70,000 | 28,000 | 26,000 | 95,000-100,000 | 95,000-100,000 |

[1] Caiff gwerth y buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi wrth 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai'r (cyfraniadau a wnaeth yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu osgyngiad oherwydd torsglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad na'r Cyfarwyddwyr yn cael unrhyw dalidau Bonws na Buddiannau mewn da.

## Cyflog

Cyflog yw'r swm a enillwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae'n cynnwys yr holl daliadau sy'n ddyledus. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu Flwydd-daliad y Cyflogwr. Nid oes unrhyw fuddion ar ffurf nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2013-14 (dim yn 2012-13). Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

| | **2013-2014**<br><br>**Cyflog £'000** | **2012-2013**<br><br>**Cyflog £'000** |
|---|---|---|
| **Band y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf** | 140-145 | 140-145 |
| | £ | £ |
| **Cyfanswm Taliad Canolrif** | 26,988 | 27,897 |
| **Cymhareb** | 5.3 | 4.8 |

Band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14 oedd £140,000 - £145,000 (£140,000-£145,000 yn 2012-13). Roedd hyn 5.3 gwaith (2012-13 4.8) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £27,000 (2012-13 £28,000).

Yn 2013-14, ac yn 2012-13, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd taliadau yn amrywio rhwng £6,000 a £145,000 (2012-13 £12,000 i £145,000).

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu penodiad presennol fel Gweinidog. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Dyma'r elfen o'r cynnydd yn y pensiwn cronedig a ariennir gan y Comisiwn. Nid yw'n cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau sy'n cael eu talu gan yr Aelod (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Teithio a chynhaliaeth

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:

| Enw | Teitl | Costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd | Costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd |
|---|---|---|---|
| | | 2013-14 | 2012-13 |
| | | £ | £ |
| **Claire Clancy** | **Y Prif Weithredwr a'r Clerc** | 1,112 | 619 |
| **Adrian Crompton** | **Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad** | 3,550 | 2,909 |
| **Dave Tosh** | **Cyfarwyddwr TGCh** | 279 | 1,307 |
| **Elisabeth Jones** | **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol** | 1,514 | 1,075 |
| **Steven O'Donoghue** | **Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid** | 1,316 | 692 |

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

Mae rhagor o fanylion am y ffigurau hyn yn y nodiadau i'r cyfrifon.

## Pensiynau

Darperir buddion pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelod o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu gynllun gyrfa gyfan (**nuvos**). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Gall yr aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

I ddechrau, mae cyflogeion yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer cynllun **classic** a 3.5% ar gyfer cynlluniau **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Fodd bynnag, mae'r cyfraniadau o 1 Ebrill 2014 wedi cynyddu ac wedi cael eu pennu yn unol â bandiau cyflog. Mae buddion yn y cynllun **classic** yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y cynllun **premium** yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. **Yn ei hanfod,** cyfuniad yw'r cynllun classic plus gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun **classic** ac mae'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun **premium**. Gyda chynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3% o gyflog

pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau **classic**, **premium** a **classic plus** yw 60, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun **nuvos**.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservice-pensions.gov.uk**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan y Trysorlys a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion, y datganiad o wariant net cynhwysfawr, y datganiad o'r sefyllfa ariannol, llif arian a'r datganiad o'r newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi:

– cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys o ran cyfrifon;

– cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;

– gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;

– nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a

– pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**
**Dyddiad:** 09 Gorffennaf 2014

# Y Datganiad Llywodraethu 2013-14

**Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r sail y cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu arno; y ffordd y caiff ei lywodraethu a'i reoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.**

## Rôl y Comisiwn

**01.** Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu fel corff corfforaethol o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ei brif rôl yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad, neu sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu ar ei gyfer. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei faterion, hwyluso'r dull o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

## Diben y fframwaith llywodraethu

**02.** Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy. Mae'n galluogi'r Comisiwn i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau costeffeithiol a phriodol.

## Y fframwaith llywodraethu

**03.** Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad. Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Maent yn pennu nodau strategol y sefydliad, yn darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith ac yn goruchwylio ac yn adrodd ar yr hyn a gyflawnir.

**04.** Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Mae'n atebol i'r Comisiwn am gyflawni ei nodau strategol. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, hi sy'n atebol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd gwaith rheoli yng Nghomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Cynulliad.

**05.** Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Taliadau. Mae Bwrdd Taliadau annibynnol yn pennu cyflogau a chymorth ariannol arall sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

**06.** Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r hyn a gyflawnir. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo llawer o'i swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

**07.** Caiff y gwaith o ddarparu gwasanaethau o fewn y Comisiwn ei reoli drwy strwythur sefydliadol o Gyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth sy'n adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr. Mae'r **Bwrdd Rheoli** yn cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaethau sy'n cydgysylltu polisi a materion gweithredol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd i adolygu a chydgysylltu gweithgareddau. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu mewn modd corfforaethol er budd y Cynulliad cyfan.

**08.** Mae'r **Bwrdd Buddsoddi**, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Busnes, TGCh a Chyllid y Cynulliad yn rhoi cyfeiriad i fuddsoddiadau mewn gwelliannau pwysig ar draws y Comisiwn a goruchwyliaeth llywodraethu i'r buddsoddiadau hynny.

**09.** Caiff y gwaith o **reoli adnoddau** ei wneud drwy system lywodraethu o awdurdodau dirprwyedig sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, fel caffael. Mae dulliau adolygu ac adrodd sefydledig ar waith, wedi'u cydgysylltu a'u cefnogi gan dimau cymorth canolog.

## Perfformiad

**10.** Yn ystod trydedd flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad, mae Comisiwn y Cynulliad wedi cael cyfle i ystyried sut y caiff ei nodau corfforaethol eu cyflawni a chanolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Ar y cyfan, mae gan staff lefel uchel o broffesiynoldeb ac arbenigedd, ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion llywodraethu a'u gweithredu. Bodlonwyd y Rheolau Sefydlog perthnasol a'r terfynau amser mewnol i gefnogi'r broses ddeddfu ac mae'r adborth gan Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn gadarnhaol. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd, mae paragraff 32 yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwelliant pellach yn y flwyddyn i ddod.

**11.** Ar gyfer 2013-14, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei flwyddyn lawn gyntaf o **Ddangosyddion Perfformiad Allweddol**, a gyflwynwyd i ddangos perfformiad corfforaethol ar draws pob maes gweithgaredd allweddol. Er mai proses ailadroddol iawn ydyw, mae'r dangosydion wedi darparu gwybodaeth reoli werthfawr am ein meysydd perfformiad allweddol. Maent wedi dangos cynnydd mewn gweithgaredd ym mhob agwedd ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r rhan fwyaf o ddangosyddion yn cofnodi gwelliannau mewn perfformiad. Caiff y dangosyddion hyn eu hadolygu a'u mireinio dros y misoedd nesaf i sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth ystyrlon i ni. Mae'r dangosyddion hyn, ynghyd â **gwell gwybodaeth reoli** gan wasanaethau cymorth canolog yn caniatáu i ni fireinio ymhellach ein dull o reoli adnoddau a chyflawni yn erbyn amcanion y Comisiwn.

**12.** Er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu cydweddu'n briodol â chyflawni ein nodau corfforaethol, bu ffocws ar gynllunio strategol a chydweithredu ar draws gwasanaethau. Mae ein **Blaenoriaethau Strategol,** y cytunwyd arnynt ym mis Chwefror 2013, wedi bod yn sail i'n gwaith o gynllunio gwasanaethau. Er bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau gwasanaeth ar waith erbyn 31 Mawrth, nid oedd gan lawer o'r meysydd gwasanaeth gynlluniau cyfredol ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Y gwasanaethau hyn yn bennaf oedd lle roedd gwaith ad-drefnu busnes wedi digwydd. Mae gosod blaenoriaethau strategol wedi ein galluogi i ddeall y cyd-ddibyniaethau o fewn y sefydliad yn well yn ogystal â helpu i sicrhau ein bod yn osgoi gweithio heb ymwneud ag eraill.

**13.** Mae ein huchelgais i ddarparu cefnogaeth i weledigaeth y Comisiwn o gael **Pwyllgorau o'r radd flaenaf yn y Cynulliad** wedi arwain at newidiadau yn y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gennym i gefnogi'r 13 o bwyllgorau'r Cynulliad. Mae'r adolygiad o gymorth ar gyfer pwyllgorau, a ddechreuwyd ym mis Ionawr 2013, yn tynnu sylw at nifer o feysydd i'w gwella sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn. Ad-drefnwyd ein strwythur cefnogi pwyllgorau hefyd, i wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau i ddiwallu anghenion ar gyfer polisi a chraffu deddfwriaethol ar gyfer pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad.

**14.** Mae sefydlu'r **Gwasanaeth Trawsnewid Strategol** wedi ein galluogi i gryfhau'r ffordd yr ydym yn rheoli prosiectau a sicrhau bod cysylltiadau a dibyniaethau rhwng gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gyfarwyddiaeth Busnes a rhannau eraill o'r sefydliad yn cael eu nodi a'u deall. Mae cael maes gwasanaeth gyda ffocws strategol hefyd wedi ein galluogi i ymateb yn gyflym ac mewn ffordd ddeallus i'r heriau sy'n dod i'r amlwg yn sgîl y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

**15.** Rydym wrthi'n cryfhau **ein dull o reoli prosiectau a rhaglenni**. Y sbardunau ar gyfer y gwaith hwn yw'r angen i ymateb i nifer gynyddol o brosiectau sydd ar waith yn y Cynulliad a'r angen i fynd i'r

afael â'r gwendidau o ran trefniadau rheoli prosiect a llywodraethu a ddaeth i'r amlwg yn ystod un prosiect, a'r adolygiad dilynol ohono, dros y flwyddyn ddiwethaf,. Mae'r nifer gynyddol o brosiectau sydd yn eu cyfnodau olaf ar hyn o bryd yn rhoi'r cyfle inni adolygu ein prosesau gan nodi'r gwersi i'w dysgu, a chanolbwyntio arnynt, a chasglu a datblygu arfer da. Bydd y dull cryfach hwn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn gwella'r ffordd y caiff prosiectau eu cyflawni a'u llywodraethu, a bydd yn ein galluogi ni i gymryd golwg mwy strategol ar y modd y dyrennir adnoddau i brosiectau.

16. Un ffocws allweddol ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau strategol yn y flwyddyn ddiwethaf oedd **trosglwyddo ein gwasanaethau TGCh** o ddarparwr allanol i gyfundrefn gefnogaeth fewnol. Yn ogystal â sicrhau lefel uchel o arbedion gwerth am arian, bydd hyn hefyd yn ein galluogi i fod yn fwy hyblyg wrth ymateb i anghenion TGCh yr Aelodau a'r staff. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i drosglwyddo'r gwasanaethau hyn yn llyfn, fesul cam rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2014.

17. Mae'r Comisiwn wedi cynnal yr ail **adolygiad o'i effeithiolrwydd**. Cafodd y gwaith hwn, a oedd yn seiliedig ar astudiaeth gan Bennaeth Archwilio Mewnol Comisiwn y Cynulliad, ei lywio gan drafodaethau â Chomisiynwyr a nifer o unigolion eraill. Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol ar y cyfan a nodwyd y cynnydd sylweddol a wnaed gan y Comisiwn ers y llynedd. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys goruchwyliaeth effeithiol y Comisiwn wrth weithredu prosiectau mawr, fel TGCh ar gyfer y dyfodol a ffocws strategol cliriach y Comisiynwyr a arweiniodd at ddatblygu a lansio cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ystod 2013-14.

18. Codwyd nifer o argymhellion i helpu'r Comisiwn i barhau i ddatblygu fel 'bwrdd llywodraethu' effeithiol sy'n perfformio'n dda. Mae'r argymhellion yn nodi rhai o'r meysydd allweddol lle y gall y Comisiwn wneud cynnydd pellach. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu ei ddulliau o gyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol a phwysigrwydd cynnal agwedd strategol yn y flwyddyn i ddod ac yn enwedig i ddatblygu datganiad etifeddiaeth y gellir ei ddefnyddio gan Gomisiwn y Pumed Cynulliad.

19. Cyfarfu Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiwn y Cynulliad bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn capasiti cynghorol, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad, adroddiadau ar reoli risg, a'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau archwilio.

20. Gwelwyd nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn narpariaeth ein harchwiliad mewnol. Dechreuodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ei swydd newydd ym mis Gorffennaf 2013 a phenodwyd archwilwyr mewnol newydd ym mis Awst 2013. Cytunodd ACARAC ar Siarter Archwilio Mewnol newydd ym mis Tachwedd 2013 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU. Mae'r adran Archwilio Mewnol wedi cyflwyno ei chynllun yn seiliedig ar risg ar gyfer 2013-14, a oedd yn cynnwys cyfres o adolygiadau newydd ac yn mynd ar drywydd argymhellion archwilio o flynyddoedd blaenorol. Trwy gyfuniad o fynd i'r bwrdd prosiect ac adolygiadau archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi parhau i roi sicrwydd mewn perthynas â dau brosiect mawr, sef rhaglen TGCh ar gyfer y dyfodol a system newydd y Gyflogres/Adnoddau Dynol ar y cyd.

## Cydymffurfio

**21.** Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cydymffurfio â'r egwyddorion llywodraethu a'r darpariaethau ategol y cytunwyd arnynt.

## Nodi a rheoli risg

**22.** Mae'r system rheoli mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i ganfod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau a nodau ac amcanion y Comisiwn, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny yn cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus.

**23.** Y prif feysydd ffocws ar gyfer ein risgiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn oedd gwasanaethau TGCh yn y dyfodol, y gallu a'r adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, parhad busnes a risgiau allweddol i'n henw. Un risg allweddol sydd wedi lleihau yn ystod y flwyddyn oedd llywodraethu gwybodaeth o ganlyniad i gryfhau'r rheolaethau.

**24.** Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg drosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a thrafododd risgiau corfforaethol penodol yn fwy manwl trwy gydol y flwyddyn.

## Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg

**25.** Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a gwblhawyd gan y Bwrdd Rheoli ym mis Chwefror 2014. Roedd hyn yn cynnwys sicrwydd o ran y fframweithiau llywodraethu a chynllunio, y trefniadau arweinyddiaeth a rheoli busnes, ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd rheoli a'r ymgysylltiad ag ef. Cafodd yr adolygiad ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cyn llofnodi'r datganiadau ariannol. Caiff y broses hon ei chryfhau ymhellach drwy bennu'r Fframwaith Sicrwydd ar gyfer y Comisiwn yn ffurfiol. Bydd hyn yn golygu mapio sicrwydd a fydd yn ceisio ychwanegu eglurder a dealltwriaeth pellach o ran sut yr ydym yn cael sicrwydd bod ein rheolaethau mewnol yn gadarn ac yn effeithiol.

**26.** Mae ethos gwelliant parhaus y Comisiwn wedi cael ei adlewyrchu'n gyson ym maes **rheolaeth ariannol** a pherfformiad. Mae gwelliannau mewn adroddiadau a rhagolygon ariannol wedi rhoi hyblygrwydd i wneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael. Mae hyn wedi galluogi'r dangosydd perfformiad ariannol allweddol i gael ei osod ar darged mwy heriol o gyflwyno'r alldro o fewn 1% i'r gyllideb, o'i gymharu â 2% yn y flwyddyn flaenorol. Mae ffocws y Comisiwn ar ddarparu Gwerth am Arian yn parhau ac am y drydedd flwyddyn yn olynol, rydym wedi rhagori ar ein targed arbedion a chynyddu'r cyfraniad o wariant gweithredu nad oedd yn wariant ar staff. Mae o hyd yn ofynnol paratoi achosion busnes dros gynigion recriwtio, ac iddynt gael eu cymeradwyo ymlaen llaw cyn unrhyw weithgaredd recriwtio.

**27.** Roedd y Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2012-13 yn nodi bod lle i gryfhau llywodraethiant ymhellach yn y Comisiwn a nododd nifer o **feysydd lle roedd angen cymryd camau penodol yn 2013-14.**

**28.** Gwnaed cynnydd pellach eleni wrth atgyfnerthu **trefniadau llywodraethu gwybodaeth** yn y Cynulliad. Nawr, flwyddyn ers dechrau'r broses newydd, rydym yn asesu'r cynnydd drwy gynnal hunanasesiadau gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth ac adolygiad gyda'r adran Archwilio Mewnol. Mae Cofrestrau Asedau Gwybodaeth wedi bod yn effeithiol o ran gwella sut y cedwir gwybodaeth a pha wybodaeth a gaiff ei chadw, ac mae proses newydd ar gyfer asesu, rheoli a rhannu gwybodaeth am risgiau wedi cael ei chyflwyno. Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi parhau i godi ymwybyddiaeth, gan ymweld â cyfarfodydd timau a gwasanaeth a gwneud

cyflwyniadau iddynt, cyfarfod â Perchnogion Asedau Gwybodaeth, a goruchwylio'r Grŵp Swyddogion Gwybodaeth. Mae wedi cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad yn eu rolau fel rheolwyr data, ac wedi parhau â gwaith ymweliadau ymgynghorol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y llynedd drwy gychwyn rhaglen o ymweliadau â Swyddfeydd Etholaeth i gynghori Aelodau a staff ar weithdrefnau trin gwybodaeth.

**29.** Mae rôl y **Bwrdd Buddsoddi** fel y corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer adnoddau yn y Cynulliad wedi cryfhau dros y flwyddyn. Mae'r gwaith dadansoddi prosiect a gwneud penderfyniadau wedi cael ei gryfhau drwy wella'r wybodaeth a ddarperir i'r bwrdd a gwella rôl yr ysgrifenyddiaeth o ran cynghori a 'sgrinio' cyflwyniadau cyn iddynt fynd at y bwrdd i benderfynu arnynt. Mae gwaith rheoli prosiect wedi cael ei wella drwy ddatblygu 'dull gweithredu'r Cynulliad' sydd â'r nod o sicrhau cysondeb y trefniadau llywodraethu ar draws yr holl brosiectau y mae'r sefydliad yn ymgymryd â hwy. Mae hyn, ochr yn ochr â dull rheoli rhaglenni newydd, yn galluogi'r Bwrdd Buddsoddi i ehangu ei gwmpas i gynnwys cynllunio adnoddau strategol ar draws y Cynulliad cyfan.

**30.** Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at gwblhau **Cynllun Parhad Busnes** Comisiwn y Cynulliad; mae gan sawl maes gwasanaeth gynlluniau drafft erbyn hyn a bydd y gwaith o'u profi yn dechrau ym mis Ebrill 2014. Nid yw Parhad Busnes wedi datblygu mor gyflym ag y byddem wedi dymuno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd nifer o ffactorau (ee ad-drefnu Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad). Fodd bynnag, mae'r Cynllun Parhad Busnes ar gyfer y sefydliad ar y trywydd iawn tuag at gyrraedd y dyddiad gweithredu diwygiedig o fis Rhagfyr 2014. Mae'r Rheolwr Parhad Busnes a'i swydd wedi symud i'r tîm Llywodraethu ac Archwilio sy'n darparu cymorth ychwanegol i'r broses gynllunio parhad busnes.

**31.** Cafodd y **Cynllun Ieithoedd Swyddogol** ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn ystod y flwyddyn a byddwn yn llunio ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y cynnydd yn ystod haf 2014. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud cynnydd da ar weithredu llawer o agweddau ar y cynllun fel datblygu technoleg cyfieithu peirianyddol, sy'n arweinydd yn ei faes, a'r camau a gymerwyd wrth ddarparu papurau briffio dwyieithog i bwyllgorau. Mae rhai meysydd lle mae angen i ni wneud mwy o gynnydd o hyd er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r cynllun, fel ein strategaeth sgiliau dwyieithog, ymgynghori ag Aelodau a gwasanaeth dwyieithog yng Nghaffi'r Senedd.

**32.** Yn ystod y flwyddyn rydym wedi nodi nifer o **feysydd sydd angen eu cryfhau yn ystod 2014-15**:

- Gwella gwybodaeth reoli ee mireinio Dangosyddion Perfformiad Allweddol ymhellach a gwell gwybodaeth i'r Bwrdd Buddsoddi;
- Cynyddu effeithiolrwydd ein blaengynllunio, gan gynnwys rhannu ac chanfod cysylltiadau rhwng cynlluniau gwasanaeth yn well;
- Gwella rôl y Bwrdd Buddsoddi ymhellach ym maes cynllunio adnoddau a chapasiti;
- Parhau i weithredu gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol;
- Gwella’r Cynllun Ymateb i Dwyll;
- Cwblhau a phrofi'r Cynllun Parhad Busnes; a
- Gwella ein strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd.

**33.** Mewn ymateb i un digwyddiad prin o dwyll, rydym hefyd yn cryfhau ein dulliau rheoli sy’n ymwneud â chofnodi a dilysu data cyflenwyr. Mae’r ysgogiad ar gyfer y darn hwn o waith yn

cynnwys yr angen i fod yn ymwybodol o'r galluoedd TGCh sy'n esblygu'n barhaus sydd ar gael i bawb, ac sy'n cynyddu'r dulliau posibl o dwyll. Bydd y rheoliadau cadarnach yn helpu i sicrhau cywirdeb ein system daliadau a lleihau'r risg o ffynonellau allanol.

**34.** Caiff cynllun yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn ei baratoi a chaiff adroddiad am y cynnydd ei adrodd yn ôl i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd Comisiwn y Cynulliad.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Dyddiad: 09 Gorffennaf 2014

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig.  Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.  Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddyd Trysorlys EM a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio'n unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).  Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol Bwrdd Arfer Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael digon o dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall.  Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Comisiwn; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig.  Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn ar 31 Mawrth 2014, a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net, a'i gost gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

– mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac

– mae'r wybodaeth sy'n cynnwys sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

– nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;

– ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;

– ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu

– nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2014

# Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## a)Crynodeb o'r Alldro 2013–14

| | | Cyllideb | | | Alldro | | | 2013-14 £'000 | Alldro 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Gwariant | Incwm | Cyfanswm | Gwariant | Incwm | Cyfanswm | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion / (gwariant ychwanegol) | |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | SOS 02 | 35,300 | (250) | 35,050 | 35,705 | (250) | 35,455 | (405) | 33,634 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | SOS 02 | 13,700 | | 13,700 | 13,261 | - | 13,261 | 439 | 12,938 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | SOS 02 | 1,200 | | 1,200 | 1,054 | - | 1,054 | 146 | 573 |
| | | 50,200 | (250) | 49,950 | 50,020 | (250) | 49,770 | 180 | 47,145 |

**Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro yn SOS 2.**

## b) Gofyniad arian parod net 2013-14

| | | | | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £'000 | £'000 |
| | Nodyn | Cyllideb | Alldro | Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion / (gwariant ychwanegol) | Alldro |
| Gofyniad arian parod net | SOS 04 | 45,850 | 45,408 | 442 | 43,197 |

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro a gymeradwywyd yn SOS 02 ac yn y Sylwebaeth Reoli.

## c)Crynodeb o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn 2013-14 mae disgwyl i Gomisiwn y Cynulliad dalu £31,327.67 (dim yn 2012-13). Mae'r arian hwn yn cynrychioli'r incwm dros ben a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

# Nodiadau ar y Cyfrifon Adnoddau (Datganiad o Gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

## SOS 01.Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Rhoddir Datganiad o Gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn iddo allu cytuno ar gyllidebau ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw yn ogystal ag incwm i'w gadw. Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2012-13 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

### SOS 01.1 Confensiwn cyfrifyddu

Caiff y Datganiad o Gyflenwad a'r nodiadau cysylltiedig eu cyflwyno yn unol â rheolaeth cyllideb y Trysorlys ac Amcangyfrifon Cyflenwi.

### SOS 01.2 Cymhariaeth gyda chyfrifon sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

Caiff nifer o drafodion eu trin yn yr un ffordd mewn Cyfrifon Gwladol a chyfrifon sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ond mae nifer o wahaniaethau.

#### – Derbyniadau yn uwch na chytundeb Trysorlys Ei Mawrhydi

– Mae hyn yn berthnasol lle mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cytuno ar derfyn incwm y gellir ei gadw gan y Comisiwn, gydag unrhyw incwm dros ben yn cyfrif y tu allan i gyllidebau, ac o ganlyniad y tu allan i'r Datganiad o Gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.** Bydd cyfrifon seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn cofnodi'r holl incwm, waeth beth yw'r terfyn cyllidebol. Gall y sefyllfa hon godi yn y meysydd canlynol: (i) elw / colled wrth waredu asedau; (ii) cynhyrchu incwm sy'n uwch na setliadau Adolygiad o Wariant yr adran; a (iii) incwm a dderbyniwyd uwchben y cytundebau *netting-off*.

#### – Darpariaethau

– Nid yw'r ddarpariaeth a gydnabyddir yn y cyfrifon yn seiliedig ar IFRS yn cael eu cydnabod fel gwariant hyd nes y caiff y taliad gwirioneddol o arian parod (neu atebolrwydd croniad) ei gydnabod. Caiff cysoniad ei ddarparu yn SOS 03.

# SOS 02.Dadansoddiad o’r alldro adnoddau net 2013-14

| | Alldro £’000 | Dadansoddiad o’r gyllideb a gymeradwywyd £’000 | Alldro o’i gymharu â’r gyllideb a gymeradwywyd £’000 | Dadansoddiad o'r Gyllideb Ddiwygiedig £ '000 | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb Ddiwygiedig £ '000 | Alldro 2012-13 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Gwariant Refeniw* | | | | | | |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 15,770 | 15,269 | (501) | 15,269 | (501) | 14,736 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 7,380 | 7,642 | 262 | 6,942 | (438) | 7,920 |
| Costau TGCh | 4,971 | 5,654 | 683 | 5,654 | 683 | 3,844 |
| Costau eraill | 1,319 | 1,367 | 48 | 1,367 | 48 | 1,328 |
| Costau hyfforddi a datblygu | 384 | 340 | (44) | 340 | (44) | 250 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | 217 | 452 | 235 | 452 | 235 | 178 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 128 | 173 | 45 | 173 | 45 | 136 |
| Costau eraill Adnoddau Dynol | 113 | 103 | (10) | 103 | (10) | 211 |
| Costau dibrisiant ac amorteiddiad | 3,734 | 4,000 | 266 | 4,000 | 266 | 3,942 |
| **Gwariant refeniw gros** | **34,016** | **35,000** | **984** | **34,300** | **284** | **32,545** |
| *Incwm refeniw* | | | | | | |
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | (12) | (11) | 1 | (11) | 1 | (12) |
| Incwm rhentu adeiladau | (116) | (116) | - | (116) | - | (57) |
| Incwm amrywiol | (122) | (123) | (1) | (123) | (1) | (96) |
| **Incwm refeniw gros wedi’i gymhwyso** | (250) | (250) | - | (250) | - | (165) |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **33,766** | **34,750** | **984** | **34,050** | **284** | **32,380** |
| **GWARIANT CYFALAF – CREU ASEDAU SEFYDLOG** | 1,689 | 1,000 | (689) | 1,000 | (689) | 1,254 |
| **ALLDRO ADNODDAU** | **35,455** | **35,750** | **295** | **35,050** | **(405)** | **33,634** |
| **Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig** | 13,261 | 13,700 | 439 | 13,700 | 439 | 12,938 |
| **ALLDRO ADNODDAU** | **48,716** | **49,450** | **734** | **48,750** | **34** | **46,572** |
| **Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau** | 1,054 | 500 | (554) | 1,200 | 146 | 573 |
| **Alldro Adnoddau Net** | **49,770** | **49,950** | **180** | **49,950** | **180** | **47,145** |

## Dadansoddiad o alldro adnoddau net – nodiadau

Yr alldro adnoddau ar gyfer y flwyddyn oedd £0.034 miliwn (0.07%) yn is na chyfanswm y gyllideb a awdurdodwyd. Mae hyn yn welliant sylweddol o flynyddoedd blaenorol, ac yn codi o brosesau cyllidebol gwell y Comisiwn. Mae'r rhain wedi galluogi'r dangosydd perfformiad allweddol i gael ei ostwng o'r <2% a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2012-13 i <1%. Mae'r targed hwn yn cael ei gynnal ar gyfer 2014-15.

Y tanwariant ar gyflogau, lwfansau a chostau cysylltiedig yr Aelodau oedd £0.439 miliwn (3.2%) ac mae'r tanwariant hwn wedi galluogi'r Comisiwn i gyflymu'r cynlluniau trefniadau a rhaglenni presennol. Mae'r gwelliannau yn y broses gynllunio a rheolaeth ariannol yn parhau i ddarparu'r hyblygrwydd ariannol sydd ei angen i reoli'r nifer cynyddol o brosiectau a gaiff eu rheoli drwy gydol y cyfnod.

Yn benodol, o fewn y Costau TGCh a phrosiectau refeniw TGCh roedd effaith gronnus prosiectau newid TGCh (fel fideogynadledda, cam II/III WiFi, Adnoddau Dynol-Y Gyflogres, Cyllid, adnewyddu Medialon a Sharepoint) ynghyd â gostyngiad yn yr anghenion cyllid ar gyfer anghenion galluogi'r prosiect Dyfodol TGCh wedi golygu bod £0.741 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau blaenoriaeth eraill.

Mae hyn yn ei dro wedi galluogi cynnal prosiectau cyfalaf sy'n cynnwys uwchraddio'r gwasanaethau darlledu, gwella capasiti gwresogi'r Senedd a diogelwch yr ystâd yn gynt na'r disgwyl.

Yn ystod y flwyddyn, daeth tanwariannau eraill i'r amlwg o wariant is na'r hyn a gyllidebwyd ar gyfer cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a chostau swyddfa a threuliau eraill Aelodau'r Cynulliad, ynghyd ag ailbrisio ystâd y Cynulliad (rhan o gostau Llety a Chyfleusterau) a chostau hyrwyddo is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Mae pob un o'r newididau cyllidebol hyn ynghyd ag ymdrech barhaus y Comisiwn i gyflwyno Gwerth am Arian wedi rhyddhau cyllideb debyg yn 2013-14 ar gyfer prosiectau blaenoriaeth eraill fel y costau annisgwyl sy'n gysylltiedig ag atgyweirio to swyddfa Tŷ Hywel, darparu gwelliannau pellach i wasanaethau busnes o ran datblygu'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol yn ogystal â'r recriwtio staff TGCh wrth i'r gwasanaeth symud i fod yn ddarpariaeth gwasanaeth mewnol.

Mae costau Cyllid Pensiwn Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu hamsugno'n gyfan gwbl o fewn y Gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Y gyllideb hon a neilltuir yn benodol ar gyfer y diben hwn gyda chostau sy'n codi o driniaeth cyfrifyddu a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19. Ni all y tanwariant £0.146 milliwn sy'n codi o'r gyllideb hon gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiben arall.

## SOS 03.Cysoni'r alldro adnoddau â'r costau gweithredu net

| | Nodyn | 2013-14<br>£000 | 2012-13<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 02 | 49,770 | 47,145 |
| Gwariant cyfalaf | 4 a 5 | (1,689) | (1,254) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 624 | 642 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 06 | (31) | - |
| **Costau gweithredu net** | | **48,674** | **46,533** |

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £624,222 (£641,915 yn 2012-13) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

## SOS 04. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2014<br>£'000 | 31 Mawrth 2013<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (45,408) | (43,197) |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 45,850 | 43,827 |
| Symiau sy'n ddyledus o'r Gronfa Gyfunol nas talwyd | (219) | - |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (630) | (924) |
| **Gostyngiad mewn arian parod** | **(407)** | **(294)** |

# SOS 05.Cysoni'r adnoddau net â'r gofyniad arian parod

| | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion / (gwariant ychwanegol) £'000 | Alldro 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 02 | 49,950 | 49,770 | 180 | 47,145 |
| <u>Addasiadau croniadol</u> | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (5,200) | (4,788) | (412) | (4,515) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 1,100 | 426 | 674 | 567 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **45,850** | **45,408** | **442** | **43,197** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2013-14 £'000 | Alldro 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 4 a 5 | (4,000) | (3,734) | (266) | (3,942) |
| Cost Cyllid Pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth | | (1,200) | (1,054) | (146) | (573) |
| | | (5,200) | (4,788) | (412) | (4,515) |

# SOS 06. Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2013-14 £'000 | Alldro 2013-14 £'000 | Alldro 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | **250** | **281** | 165 |
| Incwm gweithredu na ellir ei gadw (llog banc) | - | **-** | - |
| Is-gyfanswm | 250 | 281 | 165 |
| Swm a gadwyd | 250 | 250 | 165 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | - | 31 | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2013-14 (dim yn 2012-13).

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | 2013-14<br>£'000 | 2012-13<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | | | |
| Costau cyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a. | 21,715 | 20,585 |
| Costau Eraill yr Aelodau | 2b. | 7,940 | 7,731 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 10 | 1,054 | 573 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 18,246 | 17,809 |
| **Costau gweinyddol gros** | | 48,955 | 46,698 |
| Incwm gweithredu | SOS 06 | (281) | (165) |
| **Costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014** | | **48,674** | **46,533** |

## Gwariant cynhwysfawr arall

| | | |
|---|---|---|
| **Enillion net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar** | (4,601) | - |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014** | **44,073** | **46,533** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

## Fel ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 68,969 | 66,065 |
| Asedau annirweddol | 5 | 1,073 | 1,421 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | 70,042 | 67,486 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stoc | 6 | 19 | 16 |
| Symiau i'w derbyn | 7 | 2,426 | 1,507 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 8 | 223 | 630 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | 2,668 | 2,153 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | 72,710 | 69,639 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 9 | (4,520) | (4,398) |
| Darpariaethau | 10 | (36) | (33) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | (4,556) | (4,431) |
| **Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net** | | 68,154 | 65,208 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 10 | (4,876) | (5,191) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | (4,876) | (5,191) |
| **Asedau heb gynnwys rhwymedigaethau** | | **63,278** | **60,017** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a'r cronfeydd eraill wrth gefn** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 55,575 | 57,194 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | (4,772) | (5,051) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 12,475 | 7,874 |
| | | **63,278** | **60,017** |

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**
Dyddiad: 09 Gorffennaf 2014

# Datganiad Llif Arian

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | 2013-14<br>£'000 | 2012-13<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net | SOS 03 | (48,674) | (46,533) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 4 a 5 | 3,734 | 3,942 |
| (Cynnydd) mewn stoc | 6 | (3) | 6) |
| (Cynnydd) mewn masnach a symiau eraill i'w derbyn | 7 | (919) | (157) |
| *Heb gynnwys y newidiadau mewn symiau i'w derbyn sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Costau Gweithredu* | | | 294 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn masnach a symiau taladwy eraill | 9 | (134) | (790) |
| *Heb gynnwys y newidiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* | | 380 | - |
| Defnyddio darpariaeth | 10 | (36) | (33) |
| Costau cyllid pensiynau | 10 | 1,054 | 573 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(44,342)** | **(42,710)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (1,416) | (748) |
| Prynu asedau annirweddol | 5 | (17) | (381) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,433)** | **(1,129)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (Cyflenwad) | | 45,630 | 43,827 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 624 | 642 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (630) | (924) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **45,624** | **43,545** |
| Gostyngiad net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 04 | (407) | (294) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 8 | 630 | 924 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 8 | **223** | **630** |

# Datganiad o’r Newidiadau yn Ecwiti’r Trethdalwyr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol wedi’i hailddatgan | Y gronfa ailbrisio wrth gefn | Cronfa wrth gefn ar gyfer asedau a gafwyd yn rhodd | Cronfa bensiwn wrth gefn | Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi’i ailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | 59,315 | 7,874 | - | (3,686) | 63,503 |
| Newid yn y Gronfa Bensiwn wrth Gefn | | | | | | |
| Cost y Gronfa Bensiwn | | - | - | - | (792) | (792) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2012-13** | | (46,533) | - | - | - | (46,533) |
| **Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn** | | 573 | - | - | (573) | - |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | | | | | | |
| –Cyflenwad | | 43,827 | - | - | - | 43,827 |
| -Taliadau uniongyrchol | SOS 03 | 642 | - | - | - | 642 |
| **Swm sy’n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru -Cyflenwad** | | (630) | - | - | - | (630) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | 57,194 | 7,874 | - | (5,051) | 60,017 |
| Newid yn y Gronfa Bensiwn wrth Gefn | | - | - | - | - | - |
| **Cost y Gronfa Bensiwn** | 10 | - | - | - | 1,333 | 1,333 |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2013-14** | | (48,674) | - | - | - | (48,674) |
| **Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn** | | 1,054 | 4,601 | - | (1,054) | 4,601 |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | 10 | - | - | - | - | - |
| –Cyflenwad | | 45,850 | - | - | - | 45,850 |
| -Taliadau uniongyrchol | SOS 03 | 624 | - | - | - | 624 |
| **Swm sy’n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | | - | - | - | - | - |
| **CFERs taladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | (31) | - | - | - | (31) |
| **-Cyflenwad** | SOS 03 | (442) | - | - | - | (442) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | 55,575 | 12,475 | - | (4,772) | 63,278 |

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail gronnol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2013-14 *(FReM)* a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a oedd yn effeithiol yn 2013-14 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar Ddatganiadau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### 01.1. Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

### 01.2. Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Y trothwy TG yw pan fydd gwerth cyfunol asedau cysylltiedig a brynwyd yn fwy na £5,000. Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio ond cânt eu dal mewn gwerth teg gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

### 01.3. Dibrisio asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

### 01.4. Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

### 01.5. Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog annirweddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (3 neu 5 mlynedd).

## 01.6. Asedau a gafwyd yn Rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth cyfredol pan gânt eu rhoi ac fel arfer cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

## 01.7. Dibrisiant

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu hadeiladu, dogfennau neu gofnodion hanesyddol na gwaith celf yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| | |
|---|---|
| **Adeiladau:** | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS). |
| **Offer sefydlog:** | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| **Cyfarpar TGCh, clywedol a darlledu:** | 4-6 blynedd |
| **Seilwaith TGCh:** | 10 mlynedd |
| **Asedau anniriaethol (meddalwedd):** | 3 neu 5 mlynedd |
| **Cerbydau modur:** | 4 blynedd |
| **Asedau a gafwyd yn rhodd:** | I'w hasesu ar ôl eu cael |

## Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, os yw'n arwyddocaol.

## Cydrannau asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd â bywyd defnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol priodol.

Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau. Caiff Asedau TGCh eu 'grwpio' i TGCh, clyweledol a darlledu, Isadeiledd TGCh ac Asedau Anniriaethol, a chaiff y rhannau gwahanol eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol priodol.

## 01.8. Datganiad Gwariant Cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn seiliedig ar y gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

## 01.9. Stoc

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## 01.10. Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.  Trosir imprestau arian cyfred tramor i sterling ar sail y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

## 01.11. Pensiynau

**Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)** - Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff sydd ar secondiad gyda'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.  Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae prisiad o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei gwblhau yn 2014.

Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:  Pensiwn Sifil (**http://www.civilservice.gov.uk/pensions**).

**Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (AMPS)** - Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynllun buddion diffiniedig yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Bydd unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Mae'r Cynllun yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar **wefan y Cynulliad.**

**Cynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad –** Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynllun rhanddeiliaid grŵp gydag Aviva ac mae'n gwneud cyfraniadau misol o 10 y cant o gyflog gros ar gyfer staff cymorth. Yn ychwanegol, mae opsiwn i'r cyflogai wneud cyfraniad misol rheolaidd drwy aberthu cyflog. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ymrestru awtomatig gan mai dyddiad dechrau'r cynllun oedd 1 Ionawr 2014.

## 01.12. Cost Les Weithredol

Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## 01.13. Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994 a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt darparu nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad.  Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

## 01.14. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol yn y banc a Citibank, y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nid oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## 01.15. Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

## 01.16. Adrodd Cylchrannol

Rydym wedi adolygu ein hadroddiadau rheoli ac rydym yn fodlon nad oes gennym, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliadau ychwanegol i'w gwneud.

## 01.17. Darpariaethau

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'n rhaid gwneud amrywiol amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau cyfrifyddu a symiau a gofnodir. Rydym yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y digwyddodd y digwyddiad perthnasol hwnnw. Caiff pob amcangyfrif a barn o'r fath eu hadolygu'n barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei adolygu ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arno yn y dyfodol. Y meysydd pwysicaf o ran amcangyfrifon a barn sylweddol yw:

- Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Gellir gweld manylion tybiaethau'r actiwari yn Nodyn 02.A ac yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun pensiwn.

- Mae darpariaethau ar gyfer taliadau iawndal i staff yn seiliedig ar ragolygon taliadau pensiynau a ddisgwylir yn y dyfodol. Defnyddir y gyfradd gostyngiad berthnasol a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

## 02. A - Nifer yr Aelodau a staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Staff | Aelodau a deiliaid swyddi | Cyfanswm 2013-14 | Cyfanswm 2012-13 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau | | | | |
| Staff, Aelodau a deiliaid swyddi | 12,273 | 4,430 | 16,703 | 15,825 |
| Staff ar secondiad | 162 | | 162 | 139 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | | | |
| Staff, Aelodau a deiliaid swyddi | 1,000 | 485 | 1,485 | 1,400 |
| Costau pensiwn eraill | | | | |
| Staff, Aelodau a deiliaid swyddi | 2,335 | 1,030 | 3,365 | 3,221 |
| Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | **15,770** | **5,945** | **21,715** | **20,585** |

Caiff yr holl gostau staff eu codi yn erbyn costau gweinyddol

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng Nghyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Dyma nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr):

| | **2013-14** | **2012-13** |
|---|---|---|
| Staff parhaol | 357.21 | 337.8 |
| Staff ar secondiad | 0.5 | 1.0 |
| Staff dros dro / achlysurol | 15.63 | 19.5 |
| Penodiadau am dymor penodol | - | - |
| Cyfanswm | 373.34 | 358.3 |

Ar 31 Mawrth 2014, roedd 60 Aelod Cynulliad mewn swydd.  Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 25 Deiliad Swydd (ar wahân i'r Gweinidogion), un Prif Weinidog, naw o Weinidogion Cymru, tri Dirprwy Weinidog ac un Cwnsler Cyffredinol.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod etholedig (gweler y Sylwadau Rheoli i gael rhagor o fanylion). Rhoddir tâl o £12,420 y flwyddyn i bob Comisiynydd ers 1 Ebrill 2011. Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn.

## Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Mae prisiad o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn 2014. Bydd canlyniadau'r prisiad yn penderfynu pa gyfradd o gyfraniad fel cyflogwr y bydd angen i'r sefydliad ei dalu o 2015/16. Mae'r prisiad yn cael ei gynnal yn unol â methodoleg a nodir yng Nghyfarwyddiadau'r Trysorlys. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (http://www.civilservice.gov.uk/pensions.

Yn ystod 2013-14, roedd £2.336 miliwn o gyfraniadau cyflogwr (£2.185 miliwn yn 2012-13) yn daladwy i'r PCSPS ar sail un o bedair cyfradd yn yr amrediad rhwng 16.7% a 24.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (sydd wedi'u haddasu o fandiau cyflog 2008-09). Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Gall staff agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £32,062 (£17,489 yn 2012-13) i ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn dibynnu ar oedran yr aelod o staff ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb i gyfraniadau'r cyflogai hyd at 3% o dâl pensiynadwy. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £1,929 (£882 yn 2012-13), neu 0.8% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost buddion ar ffurf cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch. Pan baratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £3,375 (£795 yn 2012-13) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ni wnaeth neb ymddeol oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw rwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

## Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Mae cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddi i'w rheoli. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2008 ac fe'i diweddarwyd hyd at 1 Ebrill 2011 gan actiwari annibynnol cymwysedig. Bydd y prisiad actiwaraidd llawn nesaf yn cael ei gynnal ar 1 Ebrill 2014. Cynllun â chronfa yw hwn.

Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (30,258) | (29,011) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 25,486 | 23,960 |
| Rhwymedigaeth net | | (4,772) | (5,051) |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (4,772) | (5,051) |
| Asedau | | - | - |
| Rhwymedigaeth net | 10 | (4,772) | (5,051) |

Dadansoddiad o'r swm a drosglwyddwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2013-14 £'000 | 2012-13 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,802 | 1,475 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,281 | 1,212 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (1,046) | (1,149) |
| | 2,037 | 1,538 |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill | 983 | 965 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,054 | 573 |
| Costau gwasanaeth a roddwyd | - | - |
| | 2,037 | 1,538 |

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)

| | **2013-14 £'000** | **2012-13 £'000** |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb log ar asedau'r cynllun | (282) | 1,524 |
| Enillion a cholledion ar sail profiad yn deillio o rwymedigaeth pensiwn | 720 | 1,125 |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 895 | (3,441) |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | 1,333 | (792) |

Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 29,011 | 23,984 |
| Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau ) | 1,802 | 1,475 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 424 | 445 |
| Costau gwasanaeth a roddwyd | | - |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (645) | (421) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,281 | 1,212 |
| (Colledion)/Enillion actiwaraidd | (1,615) | 2,316 |
| Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth | 30,258 | 29,011 |

Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 23,960 | 20,298 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 1,046 | 1,149 |
| Enillion gwirioneddol heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (282) | 1,524 |
| Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 983 | 965 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 424 | 445 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (645) | (421) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth | 25,486 | 23,960 |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £1,011,971 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2014-15.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 45.01% | 47.1% |
| Buddsoddiadau Amgen | 21.17% | 24.08% |
| Llog Sefydlog ac Arian Parod | 33.82% | 28.82% |

Nid yw asedau'r cynllun yn cynnwys unrhyw eiddo yn uniongyrchol nac yn uniongyrchol. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £2,277,471 (£2,214,659 yn 2012-13).

Mae'r gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos ecwitïau 3.5% y flwyddyn yn uwch na'r elw ar giltiau ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Y gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos bondiau yw'r elw sy'n

gysylltiedig ag ad-dalu'r bondiau y mae'r cynllun yn eu dal (yn anuniongyrchol) ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Defnyddir yr amcangyfrif gorau o'r enillion arian parod hirdymor i nodi'r gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos arian parod, gan gymryd y bydd cyfraddau llog yn cyd-fynd â'r enillion sydd ar gael o giltiau.

Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2013-14 oedd £0.761 miliwn (£2.670 miliwn yn 2011-12).

Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | **31 Mawrth 2014** | **31 Mawrth 2013** |
|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 4.4% | 4.3% |
| Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol | -0.1% | -0.4% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | 1.9% | 1.8% |
| Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar ecwitïau | -* | 6.2% |
| Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar fondiau Llywodraeth y DU | -* | 2.7% |
| Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar fondiau | -* | 4.0% |
| Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar arian parod | -* | 2.7% |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd) | | |
| Dynion | 25.0 | 25.0 |
| Menywod | 26.2 | 26.2 |

* Yn dilyn newidiadau i IAS 19, nid oes angen yr enillion disgwyliedig ar asedau bellach.

Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

| | **31 Mawrth 2014 £'000** | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2012 £'000** | **31 Mawrth 2011 £'000** | **31 Mawrth 2010 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 30,258 | 29,011 | 23,984 | 21,095 | 21,999 |
| Asedau'r cynllun | 25,486 | 23,960 | 20,298 | 18,785 | 16,126 |
| Enillion gwirioneddol heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (4,772) | (5,051) | (3,686) | (2,310) | (5,873) |
| Enillion a cholledion ar sail profiad sy'n deillio o rwymedigaethau pensiwn | 720 | 1,125 | (436) | 617 | 251 |
| Enillion gwirioneddol heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (282) | 1,524 | (497) | 618 | 3,799 |

Mae rhagor o wybodaeth am **Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad** ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014.

## 02.B - Costau eraill yr Aelodau

Mae Costau Eraill yr Aelodau, sef £7.940 miliwn (£7.731 miliwn yn 2012-13), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2013-14<br>£'000 | 2012-13<br>£'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau Costau Swyddfa | 766 | 733 |
| Lwfansau Costau Ychwanegol | 243 | 230 |
| Lwfansau Costau Staff yr Aelodau | 6,681 | 6,503 |
| Costau Teithio | 250 | 265 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **7,940** | **7,731** |

## 02.C - Adrodd ar y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol – pecynnau ymadael

Ni wnaed unrhyw daliadau diswyddo ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld effaith costau Cynllun Diswyddo 2012-2013 yn nodyn 10.

Yn y flwyddyn flaenorol, talodd y Comisiwn gost taliad diswyddo arbennig yn ystod y flwyddyn yn unol â'r telerau a bennwyd gan y Prif Weithredwr drwy ymgynghori â Chomisiynwyr y Cynulliad. Roedd y swm hwn yn y band £50k - £100k. Roedd y taliad yn destun cytundeb cyfaddawdu.

| | **Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost** | **Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost** |
|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | **2013-14** | **2012-13** |
| **£50,000 - £100,000** | - | 1 |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl math** | - | 1 |

## 02.D - Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac mae unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Ar 9 Tachwedd 2010, penodwyd Gerard Elias QC yn Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am Gerard Elias QC a'i waith ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

Yn ystod 2013-14, cafwyd cyfanswm costau o £21,244 (£24,769 yn 2012-13) mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

- Cafodd 232.75 awr â chost o £18,424 (288 awr â chost o £21,179 yn 2012-13) am waith y Comisiynydd ar gyfer 2013-14 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.
- 88 awr â chost o £2,820 (120 awr â chost o £3,490) o ran costau staff i gynorthwyo'r Comisiynydd.

## 03.Costau Gweinyddol Eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £18.246 miliwn (£17.809 miliwn yn 2012-13) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | **2013-14** | **2012-13** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| ***Costau adeiladau a chyfleusterau*** | | |
| Lesau - Adeiladau | 2,839 | 2,812 |
| Cynnal a chadw | 1,934 | 1,971 |
| Ardrethi | 716 | 1,356 |
| Diogelwch | 573 | 603 |
| Cyfleustodau | 507 | 518 |
| Arlwyo | 306 | 305 |
| Lesau - llungopiwyr | 134 | 161 |
| Parcio | 103 | 115 |
| Dodrefn a gosodiadau | 268 | 79 |
| ***Costau TGCh*** | | |
| Gwasanaethau TGCh ar gontract allanol | 2,404 | 2,191 |
| Darlledu | 578 | 475 |
| Ffôn | 265 | 385 |
| Costau trwyddedu a chynnal a chadw | 520 | 360 |
| Prosiectau TG | 795 | 221 |
| Gwefan | 117 | 122 |
| Refeniw TGCh a phrynu defnyddiau traul | 292 | 90 |
| ***Costau eraill*** | | |
| Treuliau gweinyddol eraill | 202 | 343 |
| Cyfieithu | 276 | 204 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a thâl postio | 242 | 203 |
| Cyngor Arbenigol ac Yswiriant | 130 | 195 |
| Cyhoeddiadau | 102 | 110 |
| Cyfrifyddu a Gwasanaeth Ariannol | 77 | 92 |
| Archwilio | 128 | 87 |
| Cynghorwyr Pwyllgorau | 117 | 57 |
| Lletygarwch | 45 | 37 |
| ***Costau hyfforddi a datblygu*** | 384 | 250 |
| ***Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth*** | 217 | 178 |
| ***Costau teithio a chynhaliaeth staff*** | 128 | 136 |
| ***Costau eraill Adnoddau Dynol*** | 113 | 211 |
| ***Taliadau dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad*** | 3,734 | 3,942 |
| | **18,246** | **17,809** |

Y gost y cytunwyd arni o archwilio'r datganidau hyn yn allanol oedd £62,540 (£60,250 yn 2012-13). Ni chafwyd costau am waith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2013-14 (dim costau yn 2012-13).

# 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau* | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2013-14 £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | **71,345** | **12,852** | **1,483** | **80** | **364** | **86,124** |
| Ychwanegwyd | - | 581 | 293 | - | 798 | 1,672 |
| Ailddosbarthwyd | - | 203 | 100 | - | (364) | (61) |
| Gwerthwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiwyd | 8,205 | - | - | - | - | (8.205) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 63,140 | 13,636 | 1,876 | 80 | 798 | 79,530 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | (11,172) | (7,908) | (899) | (80) | - | (20,059) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,634) | (1,582) | (92) | - | - | (3,308) |
| Nam | - | - | - | - | - | - |
| Gwerthwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiwyd | 12,806 | - | - | - | - | 12,806 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 0 | (9,490) | (991) | (80) | - | (10,561) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **63,140** | **4,146** | **885** | **-** | **798** | **68,969** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013 | **60,173** | **4,944** | **584** | **-** | **364** | **66,065** |

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn ddiwethaf, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2014. Ailbrisiwyd y Senedd a'r Pierhead yn unol â'r gost o godi rhywbeth tebyg yn eu lle ar ôl dibrisiant fel procsi ar gyfer eu gwerth presennol .

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau* | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2012-13 £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 71,345 | 12,402 | 1,228 | 80 | 196 | 85,251 |
| Ychwanegiadau | - | 373 | 136 | - | 364 | 873 |
| Ailddosbarthwyd | - | 77 | 119 | - | (196) | - |
| Gwerthwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 71,345 | 12,852 | 1,483 | 80 | 364 | 86,124 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | (9,650) | (6,028) | (729) | (60) | - | (16,467) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,522) | (1,853) | (93) | (20) | - | (3,488) |
| Nam | - | (27) | (77) | - | - | (104) |
| Gwerthwyd | | | | | | - |
| Ailbrisiwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | (11,172) | (7,908) | (899) | (80) | - | (20,059) |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **60,173** | **4,944** | **584** | **-** | **364** | **66,065** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012 | **61,695** | **6,374** | **499** | **20** | **196** | **68,784** |

# 05.Asedau annirweddol

Mae'r asedau annirweddol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd | Cyfanswm 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 2,289 | 2,289 |
| Ychwanegwyd | 17 | 17 |
| Ailddosbarthwyd | 61 | 61 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 2,367 | 2,367 |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | **(868)** | **(868)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (426) | (426) |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(1,294)** | **(1,294)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **1,073** | **1,073** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013 | **1,421** | **1,421** |

| | Meddalwedd | Cyfanswm 2013 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 1,908 | 1,908 |
| Ychwanegwyd | 381 | 381 |
| Ailddosbarthwyd | - | - |
| Gwerthwyd | **-** | **-** |
| Ailbrisiwyd | **-** | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | 2,289 | 2,289 |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | **(518)** | **(518)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (350) | (350) |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **(868)** | **(868)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **1,421** | **1,421** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012 | **1,390** | **1,390** |

## 06.Stoc

| | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Stoc Siop y Comisiwn | 19 | 16 |

## 07.Symiau masnachol i'w derbyn; asedau ariannol ac asedau eraill

| | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:** | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 743 | 6 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 7 | 4 |
| Rhagdaliadau | 1,200 | 1,114 |
| TAW y gellir ei hadennill | 476 | 383 |
| | **2,426** | **1,507** |

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus i'w derbyn ar ôl mwy na blwyddyn.

## 08.Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 630 | 924 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (407) | (294) |
| Balans ar 31 Mawrth | 223 | 630 |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Citibank | 50 | 426 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 173 | 204 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **223** | **630** |

# 09.Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth<br>2014<br>£'000 | 31 Mawrth<br>2013<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn** | | |
| TAW | 12 | 9 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 600 | 582 |
| Symiau masnachol taladwy | 464 | 4 |
| Symiau taladwy eraill | - | - |
| Croniadau | 3,190 | 3,173 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 254 | 630 |
| | **4,520** | **4,398** |
| **Symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy eraill | - | - |
| | **4,520** | **4,398** |

Oherwydd gwelliannau awtomeiddio'r system, mae swm o £458,000 i'w weld bellach yn Symiau masnachol taladwy 2013-14. Yn 2012-13, cafodd y credydwr cyfatebol hwn ei gynnwys yn y Croniadau.

# 10.Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

O dan Safon Archwilio Ryngwladol 19, caiff rhwymedigaeth o £4.772 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Nodyn 2.

| | Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000 | Darpariaeth ar gyfer tâl digolledu i staff £'000 | 2013-14 Cyfanswm £'000 | 2012-13 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **5,051** | **173** | **5,224** | 3,892 |
| (Gostyngiad) / Cynnydd | (279)* | 3 | (276) | 1,365 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | | (36) | (36) | (33) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **4,772** | **140** | **4,912** | **5,224** |

*Mae hyn yn cynnwys cost ariannol y pensiwn o £1.054 miliwn (£0.573 miliwn yn 2012-13) a'r elw actiwaraidd net o £1.333 miliwn (£0.792 miliwn yn 2012-13) Mae rhagor o wybodaeth yn Nodyn 2a.

O gyfanswm y ddarpariaeth o £4.912 miliwn, disgwylir i iawndal o £0.036 miliwn gael ei dalu o fewn un flwyddyn

# 11. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2014 (dim ar 31 Mawrth 2013).

# 12. Ymrwymiadau o dan lesau

## (a) Lesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan lesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r lesau i ben.

| | 31 Mawrth 2014 £'000 | Ail-ddatganwyd 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Mae'r rhwymedigaethau o dan lesau gweithredol yn cynnwys: | | |
| Tir ac adeiladau: | - | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 155 | 21 |
| Yn dod i ben wedi hynny | 49,680 | 52,440 |
| | 49,835 | 52,461 |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | 81 | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 28 | 198 |
| | 109 | 198 |

Mae'r Comisiwn yn cael incwm mewn cysylltiad â phrydlesi gweithredol Tir ac adeiladau. Caiff yr incwm hwn ei ddatgelu fel Incwm Rhentu Llety o fewn SOS 2.

## (b) Lesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan lesau ariannol.

## 13. Ymrwymiadau ariannol eraill

Yn hanesyddol, mae dau o gontractau'r Comisiwn wedi bod yn gontractau na ellir eu diddymu. Contractau yw'r rhain a fyddai'n peri bod angen talu ffi pe baent yn cael eu canslo mewn modd nad yw'n cyd-fynd â'u telerau. Felly, ystyrir bod gan y Comisiwn ymrwymiad ariannol mewn perthynas â'r math hwn o gontract. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd hysbysiad ffurfiol ynghylch dod â'r contract cymorth TGCh i ben.

| | **2013-14 £'000** | **2012-13 £'000** |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau o dan gontractau na ellir eu diddymu:** | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | 840 | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 10 | 2,974 |
| Yn dod i ben wedi hynny | - | - |
| | **850** | **2,974** |

Mae contractau eraill gan y Comisiwn sy'n cyfeirio at derfynu contract yn gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer digwyddiad o'r fath. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 14. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 15.Rhwymedigaethau amodol

Mae gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i swm sy'n cyfateb i 10% o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn, ond nid ydynt i gyd wedi arfer yr hawl hwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'i hamcangyfrifir fel a ganlyn:

| | **Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2014 £'000** | **Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Swm a dalwyd yn 2013-14 £'000** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiwn ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau sydd: | | | | |
| Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn | 2 | 29 | - | Annhebygol iawn |
| Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed | 54 | 61 | - | Annhebygol iawn |

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

## 16.Colledion a thaliadau arbennig

Dyma nifer a gwerth y colledion a'r taliadau arbennig a wnaed yn ystod 2013-14:

| **(a)Datganiad Colledion** | **2013-14** | | **2012-13** | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** |
| Cyfanswm | *16* | 72 | *19* | 4 |
| Taliadau ofer a cholledion mewn effaith | *13* | 1 | *16* | 3 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | - | - | *1* | 1 |
| Colledion tâl, lwfansau a buddion blwydd-daliadau | *2* | - | *1* | - |
| Colledion cyflenwadau y gellir eu nodi yn y cyfrifon | *1* | 71 | *1* | - |

| **(b)Taliadau arbennig** | **2013-14** | | **2012-13** | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** |
| Cyfanswm | *6* | 1 | *18* | 103 |
| Iawndal | *6* | 1 | *7* | 103 |
| Ex-gratia | - | - | *3* | - |
| Tâl diswyddo arbennig | - | - | *8* | - |

# 17.Teithio a Chynhaliaeth gan Gyfarwyddwyr

Dyma’r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd diwethaf:



| | Claire Clancy<br>*Y Prif Weithredwr a’r Clerc* | | Adrian Crompton<br>*Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | | Dave Tosh<br>*Cyfarwyddwr TGCh* | | Elisabeth Jones<br>*Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol* | | Steven O’Donoghue<br>Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | **£** | £ | **£** |
| Milltiroedd mewn car | 21 | - | - | 184 | - | 135 | 59 | 38 | - | - |
| Tacsi/ Llogi ceir / costau cysylltiedig | 24 | - | - | 13 | - | 120 | 54 | 139 | - | 45 |
| Teithio awyr / costau cysylltiedig | 371 | 282 | 3,091 | 1,789 | 227 | 412 | 541 | 236 | 89 | - |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 171 | 193 | 144 | 612 | - | - | 403 | 358 | 478 | 647 |
| Adeiladau | 468 | 120 | - | 180 | 52 | 481 | 307 | 268 | 279 | - |
| Cynhaliaeth / treuliau | 57 | 24 | 315 | 131 | - | 159 | 150 | 36 | 470 | - |
| Cyfanswm | 1,112 | 619 | 3,550 | 2,909 | 279 | 1,307 | 1,514 | 1,075 | 1,316 | 692 |

# 18. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.  Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, gweler nodyn 7b. Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau. Mae David Melding, y Dirprwy Lywydd, a Peter Black, un o'r Comisiynwyr, yn ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad hefyd.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Cynulliad. Caiff Aelodau'r Cynulliad gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth, fodd bynnag, caniateir hyn y unig pan na fydd yr Aelod Cynulliad yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran cyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliadcymru.org** a **www.assemblywales.org**.



Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon